tafod elái

www.tafelai.com

Mehefin 2001 **Pris 25c** **Rhif 158**

MARCIAU LLAWN I YSGOL GWAELOD Y GARTH

Mae Ysgol Gwaelod-y-Garth sy'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, wedi mynd trwy arolwg llawn gan Estyn ym mis Chwefror, 2001 gyda marciau llawn ac mae'r staff wedi cael eu llongyfarch am eu hymroddiad.

Mae adroddiad yr arolygwyr yn talu teyrnged i'r safonau da iawn sydd wedi eu cyrraedd gan y plant yn dilyn ymroddiad a safon uchel yr addysgu. Mae hyn, yn ôl yr adroddiad, yn dilyn arweiniad y Prifathro a'r Dirprwy.

Wrth ymateb i'r adroddiad dywedodd Prifathro Ysgol Gwaelod-y-Garth, Gerwyn Williams :
"Rwy'n arbennig o falch o'r adroddiad yma. Mae'n adlewyrchu ymroddiad y plant a'r athrawon. Mae'r Bwrdd Llywodraethol a'r rhieni yn arbennig o gefnogol ac 'ryn ni'n gweithio fel uned."

Talodd yr arolygwyr deyrnged i ddatblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant ac adroddwyd bod yr ysgol *"yn darparu amgylchedd diogel a hapus ble mae yna werth i bob plentyn".* Roedd y gyfathrach gyda rhieni *"yn dda ac yn adeiladol".*

Yn ôl yr arolygwyr un o'r prif bryderon y dylai yr AALl ystyried yw cyflwr gwael a'r problemau yn gysylltiedig â'r adeiladau ac mae Peter Hammett, Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol yn gofidio yn arbennig am hyn. *"Yn naturiol, rydw i a fy nghyd-lywodraethwyr yn ymfalchio yn yr adroddiad. Mae hyn wrth gwrs yn adlewyrchu safonau uchel a gwaith caled y plant a'r athrawon sy'n gweithio fel tîm. Fe fyddwn yn parhau i wasgu ar yr AALl i wella'r adeiladau."*

Cylchoedd Meithrin Sardis, Pontypridd a Chefn Coed y Cymer, Merthyr Tudful yn lansio Parti Ponty

Parti Ponty 2001

Parc Ynysangharad Pontypridd.Dydd Sadwrn 30 Mehefin.

Diwrnod o hwyl a sbri i'r teulu.

Dydd Gwener 29 Mehefin
2pm Gig yr Urdd yn y Parc
7pm Diawled Dawnus a Chwmni Gwen yn Neuadd Dowlais
8pm Catsgam a Dragonfall

Gŵyl yr Urdd

Llongyfarchiadau i Osian Llwyd Jones, Ysgol Rhydfelen, ddaeth yn drydydd yng Ngystadleuaeth Tlws y Cerddor yng Ngŵyl yr Urdd. Dyma oedd sylw'r beirniad Dr Lyn Davies – "Manhattan - Ffantasia ar 'Wrth fynd efo Deio'i Dywyn'. Darn ar gyfer deuawd piano wedi ei ysgrifennu yn gymwys iawn. Y mae gwead y darn yn naturiol a sionc. Efallai y gallai yr Urdd ystyried y darn ar gyfer un o gystadleuthau'r dyfodol. Addawol iawn."

Rygbi

Mae Robin Sowden-Taylor, Tŷ Ffald, Pentyrch wedi bod yn cynrychioli Cymru yn Nghystadleuaeth Cwpan Rygbi y Byd i Ieuenctid dan 19 oed - daeth Cymru yn bedwerydd allan o 32 gwlad - Seland Newydd oedd y tîm buddugol. Ym mis Chwefror cafodd Robin y fraint o chwarae dros Gymru yn y Senior 7's yn Wellington, Seland Newydd ac ym mis Ebrill chwaraeodd am y tro cyntaf yn nhîm cyntaf Caerdydd. Mae wedi cael ei ddewis i fynd ar daith tîm Cymru i Siapan ym mis Mehefin. Pob lwc i Robin yn ei yrfa yn y dyfodol.

tafodelái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

LLUNIAU
D. J. Davies
01443 671327
CHWARAEON
Martin Huws
029 20811413
ERTHYGLAU
Dafydd Huws
HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar y 6ed Gorffennaf 2001
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
27 Mehefin 2001
Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

e-bost
pentyrch@tesco.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Uned 27, Ystad
Ddiwydiannol
Mynachlog Nedd
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT…
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol
Www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

Gymanfa Ganu
Y llyfr emynau newydd
'Caneuon Ffydd'

Capel Tabernacl
Efail Isaf
10.45 Dydd Sul,
17 Mehefin
Dathliad i ysgolion
a chapeli'r ardal

FFORWM CYMRAEG
Rhondda Cynon Taf
Dewch i ddweud eich dweud

Mae'r prosiect 3 mlynedd sydd yn gweinyddu'r fforwm yma yn dod i ben yn swyddogol ym mis Hydref. Bydd y swyddog presennol yn gadael y swydd ddiwedd Awst, felly mae yna nifer o bethau i'w hystyried a'i trafod.

Dydd Mercher, 13 Mehefin 2001, 2 – 4pm Interlink, Pontypridd.
01443 485337

Eisteddfod Glowyr De Cymru

Porthcawl
Dydd Sadwrn
6ed Hydref 2001

Rhestr Testunau:
Roger Price, Pafiliwn y Grand,
Porthcawl. CF36 3YW
e-bost:pricedr@bridgend.gov.uk

Cefnogi Addysg Gymraeg

Mae Ysgol Gyfun Llanhari a Mudiad Ysgolion Meithrin yn trefnu bore o weithgareddau i hybu'r Gymraeg ar 9 Mehefin yn Siop Tesco, Tonysguboriau. Ewch yno i gefnogi'r ymgyrch i roi cyhoeddusrwydd i addysg Gymraeg.

Cyhoeddir rhestr o holl gymdeithasau a gweithgareddau Cymraeg yr ardal yn rhifyn mis Medi o Tafod Elái. Os hoffech gynnwys eich cymdeithas chi ar y rhestr ffoniwch 029 20890040 neu edrychwch ar **www.cwlwm.com.**

Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg Gŵyl yr Urdd 2001

304: Gwaith Creadigol 3D Oedran Blwyddyn 9 - 3ydd Ross Whithead, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg
309: Cerameg / Crochenwaith Oedran Blynyddoedd 3 a 4 - 3ydd Kathrine Kedward, Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Rhanbarth Blaenau Morganwg
382: Pypedau Oedran Blynyddoedd 7 ac 8 - 3ydd Thomas Higgins, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg
388: Pypedau (Cywaith) Oedran Blwyddyn 9 - 1af Lauri, Leanne, Amy , Laura, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg
430: Ffasiwn Oedran Blynyddoedd 7 ac 8 - 1af Caitlin Masters-Williams, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg
466: Gemwaith Oedran Blwyddyn 9 - 1af Ross Whithead, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg
473: Dylunio a Thechnoleg Oedran Blynyddoedd 7 ac 8 - 2il Rhian Stamp, Ysgol Gyfun Llanhari, Rhanbarth Bro Morganwg.
261 Cerdd Dant Cyfansoddi Cainc - dan 25 oed : 1 Gavin Ashcroft Aelwyd Pantycelyn.
241 Gwaith ar Dâp Sain - 15-25 oed : Rhaglen radio ar gyfer ysbyty: 1af Criw'r Cyfryngau Adran Ysgol Gyfun Rhydfelen.
192 Creu Gwefan - Oedran Blynyddoedd 7,8 a 9 : Ein Hysgol ni: 1af Cardinal Newman Pontypridd
196 Tap Sain i ddysgwyr - Blynyddoedd 10-13: Cyfweliad am swydd 1af Claire ac Alex Adran Ysgol Gyfun Cardinal Newman
188 Rhyddiaith i ddysgwyr - Blynyddoedd 10 ac 11 : Profiad Gwaith - Gwastraff Amser? 1af Claire Anthony, Adran Ysgol Gyfun Cardinal Newman

AGOR Y DRWS
Y Gymraeg yng Nghaerdydd a'r Fro
Dydd Sadwrn,
Mehefin 23ain 2001
10.00 a.m. – 4.00 p.m.

Neuadd Dewi Sant,
Caerdydd
Stondinau. Gweithgareddau.
Adloniant

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol: D.J. Davies

CAPEL Y TON

Mae'n dda glywed fod Mrs M. Hunt yn gwella'n dda ar ôl cael triniaeth lawfeddygol i'w chlun. Mae wedi dioddef poen ofnadwy gan asgwrn y glun. Fe gymer dipyn o amser iddi gynefino a'r cymal newydd, a bydd yn hyfryd ei gweld yn ôl yn ein plith eto pan fydd wedi cael gwellhad llwyr.Mae rhai o'n haelodau yn methu bod yn yr oedfaon ers amser maith oherwydd llesgedd ac mae rhai dros eu 90au - Mrs Mary Williams, Mrs Mary Church y ddwy yn byw yn Llysyrefail a Mrs C. Buck o Tynybryn. Mae Mrs Gwennie John sydd dipyn yn ieuengach adre ar ôl treulio amser maith yn yr ysbyty ac yn llawer iawn yn well ond tipyn o ffordd i wella eto, hithau wedi cael cymal newydd i'w choes.

Mae yna rai yng nghartref Gelliseren sydd â chysylltiad â'r Capel sef Mr Dillwyn Llewelyn a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 90eg oed ym mis Mehefin. Mae ef cystal ag sydd i ddisgwyl. Mae Mrs Cassy Entwhistle yno hefyd a diolch iddi hi am gadw cysylltiad â mi am bytiau o newyddion. Mae Mrs May Edwards yno hefyd a Mrs Blod Evans o Tynybryn. Mae'r pedwar hyn yn gynaelodau o Ainon, yr eglwys fedyddiedig sydd wedi ei chau ers blynyddoedd bellach. Pob bendith iddynt i gyd.

NEUADD NEWYDD COEDLAI.

Ar gyrion cymuned bychan Coedlai mae yna Neuadd newydd ar waith ac yn argoeli i fod yn adeilad deniadol. Mae'r gwaith wedi dechre ers mis Hydref diwethaf a chafwyd tywydd eithafol o wlyb yn yr adeg hynny, ond yn ystod y misoedd diwetha gwelwyd symudiad mawr yn y datblygiadau. Bydd yr agoriad swyddogol tua chanol Mis Mehefin. Rwyf wedi bod lawr yn cael gweld y sefyllfa a chael cipolwg arno a chael ei fod yn adeilad ardderchog. Un sydd wedi bod yn flaenllaw ag yn Gadeirydd y pwyllgor lleol yw Mrs Marian Drew sy'n byw nepell o'r adeilad yn Stryd Gladys. Yn ôl Marian bydd y neuadd at ddefnydd rhan ddeol Cwmlai oedd rhaid i hynny fod i sicrhau grantiau o'r loteri ac eraill.

Mae Mrs Drew hefyd yn gyfrwng cysylltiad ar ran y gymuned i gadw gwyliadwraeth ar y gwaith sydd yn mynd ymlaen ar safle yr hen waith glo a golosg. Mae hi hefyd yn Bost Feistres yn Coedlai.

CYDNABOD RHAGORIAETH CYLCH MEITHRIN

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn hynod falch o gyflwyno i Gylch Meithrin Tre Thomas sêl 'Y CYLCH RHAGOROL', sef tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

Dywedodd Mai Roberts, Cadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin:

"Mae pwysau cynyddol yn cael ei roi ar ddarparwyr gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i ddangos tystiolaeth o ansawdd uchel eu gwasanaeth a'u gofal. Gwyddom fod llawer o'n cylchoedd yn darparu gwasanaeth rhagorol, ond hyd yn hyn ni fu modd gennym i gydnabod hynny yn genedlaethol. Rydym yn hynod falch o gyflwyno'r sel Cylch Rhagorol i Gylch Meithrin Tre Thomas. "

I dderbyn sêl 'Y Cylch Rhagorol' asesir y cylch gan arolygwyr proffesiynol, annibynnol sydd yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Meithrin gan gynnwys y bobl, yr amgylchedd, a'r profiadau a gynigir i'r plant yn eu gofal. Bydd Cynllun 'Y Cylch Rhagorol' yn cydnabod yr elfennau arbennig hyn sy'n cyfuno i greu cylch o ansawdd rhagorol.

Dywedodd Janet Richards, Arweinydd Cylch Meithrin Tre Thomas: "Rydym yn falch iawn o'r anrhydedd arbennig yma; mae'n golygu llawer i bawb sy'n ymwneud â'r Cylch - y staff, y rhieni a'r gwirfoddolwyr ar ein pwyllgor. Mae'r plant wrth gwrs yn mwynhau dod yma i ddysgu a chael hwyl trwy chwarae yn y Gymraeg. Mae'n bwysig iawn i gael cydnabyddiaeth genedlaethol am yr holl waith da, a'r safonau uchel a gynigir yma. Bydd derbyn sêl 'Y Cylch Rhagorol' yn ein galluogi ni, a chylchoedd eraill a fydd yn derbyn yr un anrhydedd, i gael cydnabyddiaeth genedlaethol, a dangos i rieni a darpar rieni ein bod yn cynnig gwasanaeth rhagorol i'w plant. "

Tudalen Nesaf >

PENTYRCH

Gohebydd Lleol: Bethan Griffith

Gerddi Agored Pentyrch
Eleni eto, fydd 'na tua deunaw o erddi Pentyrch yn agor eu gatiiau i'r cyhoedd ar benwythnos ola'Mis Mehefin h.y Mehefin 30ain - 1af Gorffennaf. Bu'n llwyddiant ysgubol llynedd wrth i 450 o bobl ymweld a chael cip olwg ar lawer o erddi amrywiol a safonol ar hyd a lled y pentref.

Mae'r gerddi yn agored o 10.30 y bore hyd at 5.00 y prynhawn. Mae rhai ohonynt ond yn agored am un diwrnod. Os hoffech brynu rhaglen sy'n rhestri'r gerddi ac yn cadarnhau pa ddyddiau maent yn agored,medrwch eu prynu o Siop Follis ymlaen llaw, neu o Neuadd y Pentref ar y diwrnod.Mae'r rhaglen yn eich galluogi i ymweld â'r gerddi yn ogystal. Mae 'na naw gardd ychwanegol eleni, felly i'r rhai hynny ohonoch buodd llynedd, mae 'na erddi newydd i ymweld â nhw.

Dros y penwythnos, fydd ' na luniaeth a phlanhigion ar werth yn Neuadd y Pentref, a lluniaeth ar gael yn ogystal yn y "Rise", Heol y Parc. Bydd 'na Helfa Drysor ar gael i'r plant ond mae rhaid i bob plentyn i fod o dan ofal rhiant.

Bydd yr arian a godir yn cael ei ddosbarthu i grwpiau lleol o'r pentref. Os oes gennych ddiddordeb, fydd angen gwneud cais erbyn 30ain o Fehefin. Cysylltwch â Helen Edwards ar 029 20 891337 am ragor o fanylion. Llynedd trosglwyddwyd swm o arian i gronfa Neuadd y Pentref ar gyfer adnewyddu'r maes parcio.

Gwnaethom ei fwynhau llynedd, felly os oes gennych ddiddordeb mewn garddio, dewch yn llu. Mae'r croeso yn fawr ymhob gardd, a chyfle i holi'r perchennog a dwyn syniadau!

Cylch Meithrin Pentyrch
Trist iawn yw i mi orfod cadarnhau y bydd y Cylch Meithrin yn cau ei drysau ar ddiwedd Tymor yr Haf 2001, wedi iddo fod yn rhedeg ers dros pum mlynedd ar hugain o flynyddoedd yn y pentre'.

Mae'n anorfod wrth i ni ond gael un ymholiad ar gyfer y flwyddyn addysgiadol nesaf, ac hefyd wrth i Ddosbarth Meithrin Ysgol Creigiau fedru derbyn plant yn dair oed pellach (yn ddibynnol ar lleoudd niferus)

Mae'r plant bach ar hyd y blynyddoedd wedi cael dechreuad positif addysgiadol Cymreig wrth i'r Cylch gynnig amgylchedd gyfeillgar, lan, hapus, a chlyd ei naws.

Bydd Ti a Fi yn dal i gael ei gynnal ar bnawn Mercher o 1.30 hyd at 3.00, er mwyn sicrhau presenoldeb Cymreig o fewn y pentref, ac i geisio cyflwyno a denu teuluoedd at addysg Gymraeg. Pwy a ŵyr, efallai daw galw eto?

Clwb y Dwrlyn
Rhoddwyd rhwystrau ychwanegol o flaen y criw fu ar yr helfa drysor ym mis Mai wrth i dagfeydd o gwmpas Castell Coch a thagfeydd wrth i bobl chwilio am safle i weld y tân gwyllt yn y Bae cyn gêm derfynol yr FA arafu'r helfa. Er hynny roedd pawb wedi mwyhau chwilio am fanylion dirgel yn siop Asda a'r Sinemau yn Nantgarw cyn mynd dros Fynydd Caerffili. Diolch i Gill a Pete Griffiths am drefnu'r Helfa a llongyfarchiadau i Gill a Wyn Rees am ddod yn gyntaf ac am y frawddeg '**A**m **S**bri **D**wrlyn **A**mdani'. Bydd y Clwb yn morio ar Fae Caerdydd ar Fehefin 8ed.

Merched y Wawr
Cawsom noson ddifyr iawn ym mis Mai pan ddaeth Roy Saer i roi sgwrs ar Draddodiadau Canu Gwerin Cymru. Fel rhan o'i waith yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan teithiodd Roy o gwmpas Cymru yn recordio enghreifftiau o ganeuon gwerin – rhai na chofnodwyd ar bapur. Cawsom hwyl yn gwrando ar ran o'r casgliad hwn yn ystod y noson.

Ar nos Fercher, Mehefin 13eg fe fydd cyfarfod ola'r flwyddyn. Y gobaith yw mynd ar daith gerdded yn lleol, a bydd croeso i bawb ymuno â ni. Manylion oddi wrth 029 20891947.

YSGOL GYMRAEG GARTH OLWG

Croeso'n ôl Mr Hughes
Pleser o'r mwyaf yw croesawu ein Pennaeth, Mr Elwyn Hughes, yn ôl atom ar Fehefin 4ydd, ar ôl salwch hir. Bydd yn hyfryd eich gweld yn ôl yn yr ysgol Mr Hughes.

Ymweliad â Chrochendy Nantgarw
Ar y 10fed o Fai aeth grŵp o blant o flwyddyn 5 gyda Miss Griffiths, ein cydlynydd Celf, i Grochendy Nantgarw. Bu pawb yn brysur yn llunio a chreu pysgodyn, a ffilmiwyd y plant gan S4C ar gyfer y rhaglen "Ffeil".

Croesawu Ymwelwyr
Pleser oedd croesawu'n ôl Miss Sara Lane, myfyrwraig o U.W.I.C. i weithio yn nosbarth Bl 2 a 3.

Hefyd croesawyd Ashley Davies o Ysgol Rhydfelen atom ar brofiad gwaith. Bu Ashley yn treulio'r wythnos yng nghwmni'r plant lleiaf - yn y dosbarth Meithrin a Derbyn.

Llongyfarchiadau Julie!
Llongyfarchiadau mawr i Julie Earles ar ennill gwobr Staff Gofal Gorau y Fenter. Julie sydd yng ngofal y Clwb Carco yn ein hysgol, ac mae'r clwb yn boblogaidd iawn. Da iawn Julie!

Buddsoddwyr Mewn Pobl
Ar ddydd Iau Mai 17eg aeth Mr Elwyn Hughes a Mrs Maralyn Tomlinson i'r C.I.A. yng Nghaerdydd i derbyn gwobr 'Buddsoddwyr Mewn Pobl'. Aseswyd yr ysgol gan Mr Neil Huxtable ar ddiwedd Mis Mawrth. Mae hyn yn glod i'r ysgol ac yn adlewyrchu'r cyd-weithio sydd ymysg yr holl weithlu.

Tîm Pêl-droed Garth Olwg
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed saith bob ochr yr ysgol. Ar ddydd Mawrth Mai 15fed bu'r bechgyn yn cystadlu yng nghystadleuaeth pêl-droed y Sir. Fe lwyddodd y bechgyn i gipio'r drydedd safle wedi cystadlu brwd. Llongyfarchiadau i Huw, Gareth, Craig, Mathew, Joseph, Deiniol a Rhodri.

LLANTRISANT

Gohebydd Lleol: Siân Evans

CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn ag Eric Davies, Southgate Avenue, a'r teulu ar farwolaeth mam Eric. Roedd hi'n 95 mlwydd oed ac wedi bod yn byw mewn cartref yng Nghaerfyrddin ers peth amser.

CROESO NÔL
Mae Gwilym a Beti Treharne nôl yn Llantrisant erbyn hyn, wedi cyfnod byr yng Nghaerdydd. Fel y nodwyd mis neu ddau yn ôl, symudon nhw o Despenser Avenue nes bod eu tŷ newydd yn wag a nawr maent wrthi'n ymgartrefu yn Lowerdale Drive. Pob lwc i chi yn eich cartref newydd.

FFARWELIO
Wrth groesawu rhai yn ôl i'n plith trist yw gorfod ffarwelio ag eraill. Rhai misoedd yn ôl soniais am Mrs Joan McAndrew, Tŷ'r Castell, Llantrisant sydd wedi bod wrthi'n dysgu Cymraeg ers rhai blynyddoedd ac yn croesawu dysgwyr eraill i'w chartref yn rheolaidd i gael cymdeithasu ac ymarfer. Yn awr, mae Mrs McAndrew a'i gŵr wedi penderfynu symud yn ôl i Loegr er mwyn bod yn agosach at eu merch a'i theulu ac mi fyddant yn gadael Llantrisant yn fuan iawn. Hoffwn ddiolch i Mrs McAndrew am ei gweithgarwch dros y blynyddoedd diwethaf a dymuno'n dda iddi hi a'i theulu yn y dyfodol.

CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON Y.G.G. LLANTRISANT
Mae'r Gymdeithas yn trefnu Gwerthiant Cist Car ym maes parcio Clwb Rygbi Llantrisant ar ddydd Sadwrn, 7 Mehefin. Os am geisio cael gwared o bethau nad oes eu hangen arnoch fwyach, cysylltwch â'r ysgol er mwyn trefnu safle i'ch car (237837 - £5 y car); neu dewch yn llu i gefnogi rhieni ac athrawon ein hysgol Gymraeg leol.

Ysgol Heol y Celyn

Beirdd
I ddechrau y mis yma mae'n amlwg fod gan yr ysgol dipyn o feirdd yn eu plith, gan fod 87 o blant wedi ennill cystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth Saesneg sef `Young Writer's Poetic Voyages Competition'. Nid yn unig fod y plant wedi derbyn tystysgrif am eu llwyddiant ond mae'r cerddi yn cael eu cyhoeddi mewn llyfr hefyd.

Chwaraeon
Llongyfarchiadau mawr i Samantha Harres blwyddyn 5 am ei llwyddiant ym mhencampwriaeth Karati Prydain. Daeth Samantha yn ail allan o naw yng nghategori ymladd plant deng mlwydd oed. Da iawn ti Samantha .

Mae tîm rygbi saith bob ochr yr ysgol wedi bod yn brysur hefyd ac wedi chwarae dwy gêm. Bu iddynt ennill yn erbyn Tonyrefail 0 10-0 ond yn anffodus colli a wnaethant yn erbyn Evan James o 15-0.

Profiad Gwaith
Hoffai'r ysgol ddiolch i ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Rhydfelen, sef Hayley Reeves, Rebecca Elley a Katie Ridge am eu help tra ar eu profiad gwaith yn yr ysgol. Rwy'n siwr fod y merched wedi mwynhau ac wedi elwa o'u profiad yn fawr iawn.

Ymweliadau
Mae 26 o blant blwyddyn 5 a 6 yr adran Saesneg yn mynd i Langrannog ar y penwythnos sef Mai y l8fed, ble bydd Miss Griffith a Mrs Powell yn cael y dasg o edrych ar eu hol. Rydw i yn siwr y gwnaiff pawb fwynhau'r profiad yn fawr iawn!

Raffl Fawr yr Urdd 2001+1

Mae'r Urdd wedi penderfynu ymestyn y Raffl a ddechreuwyd ar gyfer Eisteddfod Caerdydd a bydd cyfle pellach i brynu tocynnau.

Ym mis Mai bu i holl ddosbarthiadau'r Adran Iau ymweld â Techniquest yng Nghaerdydd i ddysgu am ddefnyddiau a'r Gwyddoniaeth sydd o'n cwmpas pob dydd.Y mae'n amlwg o ymateb y plant fod y tripiau wedi bod yn llwyddiant mawr a'r plant wedi dysgu cryn dipyn.

Bu blwyddyn 6 yn ymweld â'r `Crucial Crew' hefyd i ddysgu am ddiogelwch o'n cwmpas. Roedd pobl yn cynrychioli pob agwedd o ofal a'r gwasanaethau brys. Yn ogystal ag ymweld â'r `Crucial Crew cafwyd cyfarfod rhwng Ysgol Rhydfelen a phlant blwyddyn 6 i'w paratoi at fis Medi.

Ychydig o ddyddiau cyn diwedd tymor daeth y cwmni `Popular Road Methodist Church' i'r ysgol i berfformio sioe i'r plant. Roedd nifer o aelodau'r grŵp o wahanol wledydd y byd yn perfformio sioe bypedau a hud. Yn amlwg bu i ymdrechion y grŵp dalu gan fod pawb wedi mwynhau'r sioe grefyddol, llawn hwyl.

Cydymdeimlad
Hoffai staff yr ysgol gydymdeimlo aâ theulu Carwyn Huw Jones a fu farw yn ddiweddar. Roedd Carwyn yn gyn-ddisgybl yn yr ysgol, felly hoffem fel ysgol gynnig ein cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

Dymuniadau Gorau
I orffen y tro yma newyddion trist arall sydd i'w gael, sef fod Miss Anwen Thomas yn gadael. Mae Miss Thomas wedi bod yn aelod o staff yr ysgol ers ychydig o flynyddoedd bellach, ond nawr yn teimlo ei bod eisiau seibiant bach o ddysgu i droi ei llaw at rywbeth arall. Wel beth bynnag mae yn dewis ei wneud, pob lwc iddi yn y dyfodol a diolch yn fawr am ei holl waith caled a'i hymdrechion yn yr ysgol.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol: Nia Williams

Cerddorion Creigiau
Llongyfarchiadau fil i lawer iawn o bianyddion y pentref ar eu llwyddiannau clodwiw yn yr arholiadau piano yn ddiweddar. Llwyddodd Siwan Rhys ac Elin Haf i ennill eu gradd 5; Gethin Davies, ei Radd 3 a llwyddodd Astrid Morgan a Geraint Herbert i ennill eu graddau 1 ar y piano a'r delyn yn ogystal. Geraint gydag anrhydedd! Daliwch ati bois!

Y Maes Rygbi
Daeth y brodyr, Arwyn a Gethin Davies a chryn dipyn o glod i'w canlyn o'r Noson Wobrwyo yng Nghlwb Rygbi Pentyrch yn ddiweddar. Arwyn yn ennill y tlws am y chwaraewr oedd wedi arddangos y datblygiad gorau yn ystod y tymor - chwaraewyr dan 16, a Gethin yn cipio tlws'Chwaraewr y Flwyddyn' - dan 13! Tipyn o gamp! Llongyfarchiadau i chi eich dau, ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn y crys cenedlaethol.

Gwellhad buan
... i Llinos Honeybun, sy newydd dorri ei choes. Hen dro! Gobeithio y byddi di 'n ôl yn chwarae gyda dy ffrindiau yn fuan.

Newid Swydd
Llongyfarchiadau mawr i Sara Davies, Tŷ Siôn ar sicrhau swydd yn ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae Sara ar fin cwblhau blwyddyn hapus iawn yn ysgol Gyfun y Bontfaen, a bydd yn cychwyn ar ei sialens newydd yn y sector Gymraeg, ym mis Medi. Dymuniadau da i ti.

Dymuniadau gorau
... i Mrs Dilys Jones, Parc y Coed - gobeithio eich bod yn mwynhau gwell iechyd erbyn hyn. Braf bod 'n ôl gartref ar aelwyd Olwen a Robin, wedi eich arhosiad byr yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Croeso i'r Creigiau
... i deulu bach o Gaernarfon bell! Newydd symud i'w cartref newydd, dros dro, yn Brummel Drive, mae Huw a Carol Owen a'u merched bach Branwen, Megan a Sian. Daw Carol o County Wicklow yn enedigol - ond mae ei Chymraeg werth ei chlywed. Ym maes iechyd mae'r ddau ohonynt yn gweithio - Huw yn teithio cyn belled â Bryste i weithio. Mae'r merched wedi hen setlo yn ysgol Creigiau, a gobeithio'n wir y bydd y teulu yn hapus yn y pentref ac yn penderfynu ymgartrefu yma.

Priodas Hapus, Kathryn a Scott!
Llongyfarchiadau gwresog i Kathryn Davies a Scott Child a briodwyd yn ddiweddar yn yr Eglwys yn Groesfaen. Merch y Dr Ian ac Ann Davies, yr Hawthorns - neu yr Hen Swyddfa Bost, i ni! - ydy Kathryn, a daw Scott ei gwr o Leeds. Buont ar eu mis-mel i Dalacharn. Yn Worcester maent yn bwriadu gwneud eu cartref. Pob dymuniad da iddynt!

Kathryn a Scott Child, gyda Ann ac Ian, rhieni Kathryn

YSGOL CREIGIAU

LLANGRANNOG
Aeth Blwyddyn 6 yr Adran Saesneg i Langrannog am benwythnos ym mis Mai. Diolch i Miss Griffin a Mrs Elliott am fynd â nhw. Roedd y plant wedi bod mor dda roedden wedi gwneud y trip yn wych.

CROESO
Croeso i Miss Pugh sydd yn fyfyrwraig yn Nosbarth 4 a Catherine McCallum sydd yn cael profiad gwaith yn Nosbarth 1 ac yn gynddisgybl yn yr ysgol hon. Croeso mawr i Branwen, Megan a Siân sydd wedi dod o Gaernarfon ddechrau'r tymor.

TRIP DOSBARTH 1 A 2
Aeth Dosbarth 1 a 2 i Techniquest ac i eglwys Pentyrch. Cafon nhw amser gwych. Mae dosbarth 1 am ddweud diolch yn fawr i'r ficer am ddod i siarad â nhw.

GWOBR WCW
Os edrychwch ar glawr cefn WCW Mis Mai, fe welwch lun gan Siriol Griffith gydag enw'r ysgol. Enghraifft yn unig yw'r llun o holl luniau Dosbarth 2. A pham?
Enillodd Dosbarth 2 wobr WCW. a daeth tad Megan o'r 'Pontyprldd Observer' i dynnu eu lluniau.

GWELLA
Gobeithio y bydd Llinos Honeybun yn gwella. Cafodd hi ddamwain, cwympodd o'i gwely bync a thorri ei choes.

NEGES EWYLLYS DA
Diolch yn fawr i'r ysgolion a anfonodd gerdyn Ewyllys Da i'n hysgol ni a gobeithio bod ysgolion y cylch wedi derbyn y rhai a wnaethom ni.

CHWARAEON TAI
Brynhawn dydd Mercher braf cyn hanner tymor cynhaliwyd chwaraeon tai yr ysgol - pêl-rwyd a

Nesaf >

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol: Betsi Griffiths

CROESO
Croeso i Gilfach i Julie Kelly sydd newydd gychwyn ar ei gwaith newydd fel Swyddog Datblygu'r Celfyddydau yn y cwm i olynu Mrs Ros Davis. Celf a chrefft yw maes arbennig Julie ac mae ganddi ddiddordeb mewn murluniau. Bu Julie'n gweithio gyda oedolion oedd a phroblemau dysgu yn Llundain gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn symud i Forgannwg Ganol a Rhondda Cynon Taf i wneud gwaith tebyg, gan ymgartrefi yn Nhonyrefail. Wedi rhoi'r gorau i'w gwaith er mwyn magu teulu bu'n gwneud gwaith gwirfoddol yn Llanharan ac yn hyfforddi pobl ifanc yn y Ffatri Gelf yn Glynrhedyn (Ferndale) Mae Julie wrthi'n ymweld â mudiadau a chymdeithasau yn y cwm ar hyn o bryd er mwyn dod i adnabod pawb. Croeso Julie a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

DRAMA
Llongyfarchiadau i aelodau Cymdeithas Ddrama Gilfach Goch ar eu perfformiadau ar ddiwedd Ebrill yn y Neuadd Gymunedol yn Nhre Ifan. Llwyfannwyd dwy ddrama fer sef `Bag Dancing' ac `Under Seige' Byddwn yn cofio'n hir am berfformiad gwych Marilyn Hodge yn `Bag Dancing gan Mike Kenny a mwynhaodd pawb hefyd y comedi `Under Seige' a ysgrifennwyd gan aelod o'r cwmni sef Phil Wray. Roedd y comedi wedi ei leoli mewn Swyddfa Post tra roedd pobl yn aros i godi eu pensiwn . Roedd yn ddoniol iawn a'r amseri'n dda dros ben Llongyfarchiadau Philip , edrychwn ymlaen at gael gweld rhagor o'i waith yn y dyfodol. Bu'r Cwmni hefyd yn ddiweddar yn perfformio'r ddwy ddrama yn Ysgol Craig y Parc

DATHLU
Mae Mrs Tydfil Parry a'i gwr Derrik, Bungalow Brynawelon yn dathlu genedigaeth eu gorwyres cyntaf sef merch fach Clare a Ceri Carry. Mae Tydfil yn aelod o ddosbarth Cymraeg Calfaria ac mae'r dosbarth i gyd yn falch dros ben.

CANWR Y BYD
Bydd llond bws mini o'r Gilfach yn teithio i Neuadd Dewi Sant ar Nos Fawrth Mehefin 12ed i gefnogi Joanne Thomas o Donyrefail sydd wedi ei dewis i gynyrchioli Cymru yn y gystadleuaeth i ddewis canwr y byd. Dymuniadau gorau a phob lwc Joanne.

> Ysgol Creigiau

phêl-droed. Bu cystadlu brwd a llawer o chwysu wrth i bawb wneud ei orau dros ei dŷ. Enillwyr y cwpan pêl-droed eleni oedd Collwyn (melyn). Enillwyr y cwpan pêl-rwyd oedd Gwrgant (coch). Diolch i Mrs Willmott a Mr Evans am drefnu'r prynhawn.

RYGBI CRICC
Aeth naw o fechgyn Dosbarth 5 i chwarae rygbi yng nghlwb yr Harlequins, Caerdydd. Chwaraeon ni ddwy gêm a chollon ni y ddwy - ond does dim ots oherwydd fe gawson ni amser da. Diolch yn fawr i'r ddau Mr Evans ac i'r rhieni am fynd â ni ac am eu cefnogaeth.

PEL-RWYD
Daeth tîm pêl rwyd Ysgol Pentyrch yma i chwarae yn ein herbyn ac er i ni golli fe gawsom gêm dda a diod a bisgedi yn ystafell yr athrawon!

WCW, WCW, MEDDAI'R PLANT

Mae gwaith caled wedi talu i blant yn Ysgol Gynradd Gymraeg Creigiau. Maen nhw wedi ennill gwobr arbennig gan gylchgrawn cenedlaethol.

Fe ddaeth Mary Davies o'r comic Cymraeg WCW a'i Ffrindiau draw i'r ysgol i gyflwyno'r wobr - set o lyfrau Rwdlan gan Angharad Tomos a chaset o ganeuon.

"Dim ond un plentyn trwy Gymru oedd i fod i gael gwobr," meddai Mary, "ond roedd plant yr ysgol wedi gwneud mor dda, roedd rhaid i ni drefnu gwobr arall, arbennig.

"Roedd yr ymateb i'r gystadleuaeth yn anhygoel. Mae stori am Rwdlan yn WCW a'i Ffrindiau bob mis ac mae hyn yn dangos mor boblogaidd yw'r cylchgrawn a'r straeon."

Roedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal i ddathlu'r ffaith fod cyfrol newydd allan yng Nghyfres Rwdlan, sy'n cael ei chyhoeddi gan Wasg y Lolfa. Y dasg oedd gwneud llun o un o'r cymeriadau ac fe aeth llond dosbarth o blant Ysgol Gynradd Gymraeg Creigiau ati i gystadlu.

WCW a'i Ffrindiau yw'r unig gylchgrawn i blant bach yn Gymraeg ac mae'n cyrraedd miloedd o blant bob mis. Mae'n cael ei gyhoeddi gan gwmni Golwg yn Llanbedr Pont Steffan.

Mae'n cynnwys straeon a phosau am ragor o gymeriadau poblogaidd, fel Sali Mali, Sam Tan ac Wcw ei hun ac mae yna lawer o gymeriadau newydd, gwreiddiol hefyd.

Un o'r pethau mwyaf diddorol yw taflen Saesneg sy'n cyfieithu popeth, er mwyn helpu rhieni di-Gymraeg. Mae llawer o blant o deuluoedd Saesneg yn darllen y cylchgrawn.

TONTEG A PHENTRE'R EGLWYS

Gohebydd Lleol: Helen Jones

Prif Swyddogion
Llongyfarchiadau i Lowri Wyn ac Osian Llwyd Jones, Y Rise, Tonteg ar gael eu dewis yn brif swyddogion Ysgol Gyfun Rhydfelen.

Cwis
Pob lwc i Ceren Roberts, Lowri Llewelyn, Betsan Pierce ac Osian Llwyd, pan fyddan nhw'n teithio i Aberystwyth i gymryd rhan yn rownd derfynol cwis cenedlaethol yr Urdd.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad i'r Arglwyddes Llinos Prys Davies a'r teulu, Pentre'r Eglwys, wedi iddi golli ei mam yn ddiweddar.

Priodas
Cafodd Isobel Hume a Rhodri James, mab John ac Elaine, Tonteg, ddiwrnod braf iawn i briodi yn Stretton on Dunsmore, Rugby ar Fai'r 12fed. Y gwas priodas oedd Daniel Swain, ac un o'r bedair morwyn oedd Angharad James; roedd dau o'r ystlyswyr hefyd o'r ardal – Tomos Morse a Heulyn Rees. Mae Rhodri ac Isobel yn treulio eu mis mêl yn Thailand Hong Kong, a byddant yn ymgartrefu yng Ngwaelod y Garth - dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Eglwys Sant Illtud
Efallai fod rhai ohonoch wedi cael cyfle i weld eglwys St Illtud ar ei newydd wedd. Ar Fai 16eg cynhaliwyd gwasanaeth dwyieithog arbennig yng nghwmni Esgob Llandaf, y gwir Barchedig Barry Morgan i ddiolch am y gwaith atgyweirio. 'Roedd yr Esgob yno hefyd i weinyddu bedydd Esgob ar nifer o aelodau'r eglwys gan gynnwys Rhodri Lewis a Deiniol Fisher sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg. Cytunodd pawb ei fod yn wasanaeth gwefreiddiol ac edrychwn ymlaen at ymweliad nesaf yr Esgob.

Priodas Isobel a Rhodri James

Capel Salem,Tonteg

Aiff ein dymuniadau gorau am well iechyd i Gwyneth a Meurig Jones. Gwelir eu heisiau ers rhai wythnosau yn ein hoedfaon ond gobeithiwn yn fawr eu gweld unwaith eto yn ein plith adeg misoedd yr haf a chael y siawns i glywed llais Meurig yn chwyddo'r canu.

Un ymdrech sydd wedi gafael o'r dechrau a phrofi'n llwyddiant pendant yw'r Clwb Cymraeg a gynhelir bob nos Wener o saith o'r gloch hyd chwarter wedi wyth. Caiff pob un sy'n mynychu siawns i ymarfer ei Gymraeg trwy sgwrs a thrafodaeth uwch paned o de neu goffi. Canolbwyntir ar ddywediadau ac idiomau sy'n gyfarwydd yng ngwahanol rannau o Gymru gyda rhai'n ceisio "dal pen rheswm", eraill yn "dal eu tir" ond neb yn "dal dig"! Daw aelodau'n barod atom o Drehafod a Threhopcyn, o Waelod y Garth a Garth Olwg, o Lwynpiod a Llwynypia (gan gofio am Kitch yn gwneud yr un peth). Mae rhai ohonom yn ddysgwyr cynnar, ambell un arall yn "hen law" ond pob un wedi sylweddoli "nis da lle gellir gwell". Croeso cynnes iawn i chi i'n plith.

Er nad yw ein blaenor hynaf, sef Mrs Peggy Jones, yn medru ymuno â ni bellach yn y gwasanaethau, da yw cofnodi ei bod yn dal i gefnogi'r achos ac yn wresog iawn ei chroeso ar yr aelwyd. Mae Mrs Jones wedi bod yn barod bob amser i roi ei hysgwydd o dan y baich, ac yn cyflawni pob gorchwyl â graen. Ymestynnir ein dymuniadau gorau ati.

Sylwn fod Mr Colin Jones yn ysgafnach ei gam wedi llawdriniaeth yn Ysbyty'r Waun. Pob hwyl ichi Colin. Dyma newyddion da i bawb ar wahn i'r rhai lleol sy'n chwarae Sboncen o ddifrif!

Roedd yn hyfryd i groesawu tair o gyn-ddisgyblion yr Ysgol Sul yn ôl i'r Capel, a'r gorchwyl y tro hwn oedd i gynnal a dathlu eu priodasau. Priododd Natalie Jenkins a Roy Bright ar ddydd Sadwrn, Mawrth 24. Julie Lampert a Mark Oatridge briododd ar ddydd Sadwrn, Mai 12.

CRICC
Mae nifer o fechgyn yr ardal yn aelodau ffyddlon o CRICC (Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd). Cynhaliwyd eu noson wobrwyo nos Wener Mai 18fed lle enwebwyd tri o ddisgyblion Garth Olwg, sef Chris Waring, Rhodri Lewis a Deiniol Fisher am wobrau Chwaraewyr y Flwyddyn a Gwobr yr Hyfforddwr. Mae pawb yn edrych ymlaen at y tymor newydd ar y maes chwarae newydd yn Fferm y Fforest.

Ysgol Pont Siôn Norton

Arholiad Offerynnol
Llongyfarchiadau i Nia Sheppeard a Seren Hedd (Blwyddyn 5) ar basio eu arholiad ffidil Gradd 1 gyda chlod. Bu Nia, Seren a Gwennan Pritchard yn cynrychioli'r ysgol gyda Cherddorfa Ieuenctid Rhondda Cynon Taf mewn cyngerdd yn Ysgol Gyfun Aberpennar ar Ebrill 8fed.

Dydd Ewyllys Da
Dydd Gwener, Mai 18fed cynhaliwyd ein Gwasanaeth Ewyllys Da. Blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am baratoi y gwasanaeth eleni, ac fe fuon nhw'n brysur iawn yn cynllunio cardiau i anfon y neges at bymtheg o ysgolion Cymraeg yr ardal. Diolch yn fawr i'r ysgolion a anfonodd gardiau i'n hysgol ni ar y dydd arbennig yma.

Stadiwm y Mileniwm

Ar ôl gweithio'n galed iawn yn ystod wythnos profion y TASau fe wobrwywyd Blwyddyn 6 drwy fynd â hwy ar ymweliad â Stadiwm y Mileniwm ar Fai 21ain. Roeddent wedi cael amser wrth eu bodd.

Dathlu 50 Mlwyddiant
Fel y soniwyd yn rhifyn Ebrill o'r Tafod, mae Ysgol Pont Siôn Norton yn dathlu 50 mlwyddiant ar y 15fed o Hydref eleni. Ceir mwy o fanylion am y gweithgareddau yn rhifyn Mis Medi, ond cynhelir un digwyddiad pwysig ar Orffennaf 20fed sef aduniad. Cynhelir y noson yng Nghanolfan y Ddraenen Wen ac estynnir croeso i holl gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd dros 18 oed. Pris y tocynnau yw £5 yn cynnwys bwffe a disgo. I archebu tocynnau, cysylltwch â Rhiannydd Arthur yn yr ysgol ar 01443 486838.

Dyddiadur Mehefin a Gorffennaf
Mehefin 7fed Blwyddyn 1 a 2 Ymweliad â Phorthcawl: fel rhan o'u prosiect Daearyddiaeth – Cymharu dwy ardal. Mehefin 20fed Cyngerdd Haf yr Ysgol yng Nghapel Noddfa Ynysybwl Mehefin 27ain Blwyddyn 3 a 4 Ymweliad â Dan yr Ogof. Mehefin 30 ain Parti Ponty – Plant yn perfformio a'r Gymdeithas Rieni Athrawon yn gyfrifol am stondin. Gorffennaf 6ed Ffair Haf yr Ysgol. Gorffennaf 9fed-13eg Blwyddyn 5 a 6 Mynychu cwrs preswyl yng Nghanolfan Y Parc Cenedlaethol, Bannau

Penblwydd Hapus
Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Mrs Dorothy Todd sydd newydd ddathlu ei phenblwydd yn 60 oed. B&Q bob dydd Mercher nawr Dorothy!

> Capel Salem, Tonteg

Y drydedd briodas oedd rhwng Ceri Cadwaladr ac Adrian, a hynny ar ddydd Sadwrn Mai 19. Dymunir pob bendith i'r tri phâr ifanc yn eu bywydau priodasol.

Ein gweinidog, y Parchedig Peter Cutts fu'n gwasanaethu'n y tair priodas. Erbyn hyn mae ef, ei wraig Lynn a'r teulu wedi ymgartrefu'n gysurus yn ein plith. Gweithiant yn ddygn a diflino a gwerthfawrogir yn fawr iawn eu hymroddiad didwyll gan yr aelodau a thrigolion yr ardal. Ef sydd â gofal pob Sul hyd ddiwedd Gorffennaf, ac mae'r drysau'n agored led y pen i bawb,— 10.30a.m. – Gwasanaeth Cymraeg. Dewch i'r Festri am 10.15 os ydych am ymuno â'r Ysgol Gân. Ry'n ni'n anelu am feistroli pob emyn yn Caneuon Ffydd cyn y Nadolig!

Disgwylir criw o bobl ifanc i gynnal Ysgol Haf i blant rhwng 5 ac 11 oed bob bore rhwng Gorffennaf 25 a 29. Bydd darpariaeth ar gyfer plant yn eu harddegau gyda'r hwyr. Ceir manylion pellach yn rhifyn nesaf Tafod Elái.

HER I'R IFANC

Mae Gwobr Dug Caeredin yn rhaglen wirfoddol, anghystadleuol o weithgareddau ymarferol, diwylliannol ac anturus a baratowyd i gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc 14 i 25 oed. Mae'n cynnig her unigol, gan annog plant i ymgymryd â gweithgareddau gwefreiddiol, adeiladol heriol a dymunol yn eu hamser hamdden.

Mae'r Cynllun yn Rhaglen â phedair Adran gyda thair lefel gynyddol:

Efydd (i rai sy'n 14 oed a hynach)
Arian (i rai sy'n 15 oed a hynach)
Aur (i rai sy'n 16 oed a hynach)

Mae'r adrannau'n cynnwys:
Gwasanaeth – helpu pobl eraill yn y gymuned
Sgiliau – yn cynnwys bron pob hobi, medr neu ddiddordeb
Adloniant Corfforol – chwaraeon, dawns a sioncrwydd
Taith Antur – cynllunio a chwblhau taith ar droed, ar gefn ceffyl neu feic neu ar ddwr a hyfforddi am hynny.
Prosiect Preswyl – antur bwrpasol gyda phobl eraill

Rydym am sicrhau fod pob person ifanc yng Ngymru yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Wobr.

Am wybodaeth pellach A thaflenni cysylltwch â Betsan Dafydd, Gwobr Dug Caeredin, Oak House, 12 The Bulwark, Aberhonddu. LD3 7AD. 01874 623086.

DILYN ARLUNYDD SALEM I LYDAW

Mae'r enw Sydney Curnow Vosper yn adnabyddus bron iawn i bob Cymro a Chymraes sy'n siarad Cymraeg. Ac os nad yw'r enw yn taro tant yn syth, mae son am ei ddarlun enwocaf, Salem, yn sicr o roi proc i'r cof.

Mae Salem yn lun sydd wedi dod yn rhan o chwedloniaeth Cymru. Yn eicon cenedl. Ar ôl cael ei brynu gan Oriel Lady Lever fe'i defnyddiwyd gan ei gŵr i hyrwyddo gwerthiant sebon.

Dosbarthwyd printiau ohono i bob un oedd yn prynu nifer arbennig o sebonau. Dosbarthwyd mwy eto o gopïau o'r darlun gan sylfaenydd yr Urdd, Syr Ifan ab Owen Edwards.

Ond er enwoced y darlun Salem aeth enw Sydney Curnow Vosper yn angof tu allan i Gymru. Heblaw yn Llydaw, lle y gwnaeth y swm helaethaf o'i waith.

Bu'n ymwelydd cyson â'r wlad o ddegawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd 30au yr ugeinfed ganrif.

Peintiodd luniau o werin Llydaw yn eu cartrefi ac yn mynd o gwmpas eu gwahanol grefftau. Dysgodd Lydaweg a sicrhau y byddai'n cael croeso yn eu plith.

Brynhawn Sadwrn, Mehefin 2, yn nhref Ar Faouez (Le Faouet yn Ffrangeg) agorir yn swyddogol arddangosfa o waith Vosper yn amgueddfa ac oriel ddarluniau'r dre. Bydd i'w gweld yno tan ddechrau mis Hydref.

Ychydig flynyddoedd yn ôl darganfu Gwyn Griffiths - o Faesycoed, Pontypridd sy'n awdur nifer o lyfrau yn ymwneud â Llydaw - fod llwyth o ddarluniau o waith Vosper yn Amgueddfa Cyfarthfa, Merthyr Tudful.

"Yr oeddynt wedi cael eu gadael i'r dref wyth mlynedd yn ôl yn ewyllys yr olaf o'i ddau fab, David, a fu'n byw am gyfnod yn Llanymddyfri," meddai Gwyn.

"Y cysylltiad gyda Merthyr oedd mai un o Ferthyr oedd ei wraig, Constance James, merch Frank James cyfreithiwr a chyn-faer y dref.

"Dywedodd curadur Amgueddfa Cyfarthfa ar y pryd, Stephen Done, wrthyf fod llawer iawn o'r lluniau yn ymwneud â Llydaw ac y buasai'n wych pe gellid trefnu arddangosfa o waith Vosper yn Llydaw yn y fro lle bu'n gweithio.

Eglwys yn Llydaw – S. Curnow Vosper

"Addewais y rhoddwn gynnig i helpu a chefais groeso i fynd i weld y lluniau - bron y cyfan ohonyn nhw yn eu blychau o hyd.

"Sylweddolais yn fuan mai yn ardal Ar Faouez y treuliodd Vosper ran helaetha o'i amser. Yr oedd y farchnad dan-do sydd yn y dre yn arweiniad. Hefyd o help mawr oedd ei duedd i dynnu lluniau gyda phensil ar unrhyw hen ddarn o bapur cyfleus - bwydlenni gwestai, biliau ac ati.

"Dysgais ei fod yn un o gwsmeriaid cyson y Croix d'Or, gwesty mwyaf y dref hyd heddiw."

Cysylltodd Gwyn Griffiths ag Amgueddfa ac Oriel Ar Faouez a chafodd ymateb sydyn a brwdfrydig i'r syniad o gael arddangosfa o waith Vosper yn y dref.

"Cefais wahoddiad i ymweld â'r dref ym mis Mehefin 1999 a thros ginio yn y Croix d'Or - ble arall? - gyda Jean-Marc Michaud sy'n gyfrifol am amgueddfeydd rhanbarth y Morbihan ac Anne Le Roux, curadures Ar Faouez, rhoddwyd y syniad am arddangosfa Vosper yn eu dyddiadur am y flwyddyn 2001.

"Yr oedd enw Vosper yn adnabyddus iawn iddyn nhw a rhai o hen bobol y dref yn ei gofio'n ymweld â'r lle yn y tridegau.

"Yn wir, un o luniau Vosper yw logo oriel Ar Faouez - llun cartwnaidd o werinwr yn mynd ar ei feic a'r gwynt yn llenwi ei siaced nes ei fod yn ymddangos fel pêl fawr lâs ar y beic.

"Yr oedd Vosper yn gartwnydd dawnus, wedi cyfrannu llun neu ddau i Punch a llawer mwy i gylchgrawn o'r enw Pick-me-up."

Yr oedd Gwyn yn gwybod bod yn yr Amgueddfa Genedlaethol nifer dda o ddyfrliwiau a dynnodd o gerfiadau - pren gan mwyaf - o saint mewn eglwysi a chapeli yn Llydaw. Roedd nifer o'r rhai eto yn ardal Ar Faouez.

Ym Medi 2000 cysylltodd y Llydawiaid â Gwyn yn dweud eu bod am ddod trosodd i weld y lluniau oedd ym Merthyr a'r Amgueddfa Genedlaethol.

"Fe gawson nhw bedwar diwrnod caled," meddai Gwyn. "Mae bron hanner cant o ddyfrliwiau yn yr Amgueddfa Genedlaethol, tua pymtheg o ddyfrliwiau ym Merthyr yn ogystal â dros 1,000 o luniau pensel. Bron y cwbl yn ymwneud â Llydaw.

"Roedden nhw'n methu credu bod cymaint ar gael."

Roedd yr awdurdodau yng Nghaerdydd a Merthyr yr un mor frwd a chafwyd pob help er gwaetha - yn achos Caerdydd - rhybudd eitha byr.

St. Herve gan Curnow Vosper

"Y mae'n ddigwyddiad rhyng-Geltaidd cynhyrfus," meddai Tim Eagan o Adran Gelfyddydau Cain yr Amgueddfa Genedlaethol. Bydd e a chynrychiolwyr o Amgueddfa Cyfarthfa, Merthyr, yn mynd allan i'r agoriad swyddogol.

Yna, bythefnos cyn yr oedd yn bryd cludo'r lluniau i Lydaw darganfu Gwyn Griffiths fod gornith i Vosper, Miss Pam Forster, yn byw yng Nghaint.

"Cefais wahoddiad i fynd i'w gweld a chanfod bod ganddi chwech o ddyfrliwiau, mewn cyflwr perffaith, yn ogystal â darluniau pensil. Bydd y dyfrliwiau i gyd yn rhan o'r arddangosfa yn Ar Faouez.

"Yn sicr hon fydd yr unig arddangosfa o weithiau Vosper erioed. Bydd y darlun Market Day in Old Wales yn rhan o'r Addangosfa, a hefyd y Salem "arall".

"Gwnaeth Vosper gopi ei hun o Salem ar gyfer perthynas i'w wraig ac sydd yn parhau mewn eiddo preifat.

"Gobeithio yn awr y gellir sicrhau y bydd modd cadw'r rhan fwyaf o'r arddangosfa gyda'i gilydd i'w gweld yng Nghymru. Mae Merthyr yn awyddus i roi cartref iddi ar ôl i'r lluniau ddod 'nôl o Lydaw.

"Yn ddiddorol iawn, er bod y Llydawiaid yn gwybod mwy na ni amdano dim ond dau neu dri o ddarluniau o'i waith sydd ganddyn nhw. Y llun o'r gwerinwr ar ei feic yw un ohonyn nhw a mae dau ddarlun pensel yn stafell fwyta y Croix d'Or."

Bydd Arddangosfa Sydney Curnow Vosper i'w gweld yn Ar Faouez o Fehefin 3 tan ddechrau mis Hydref.

Hon fydd y drydedd arddangosfa yn gysylltiedig â Llydaw y bu Gwyn yn ei threfnu.

Yn 1995 trefnodd arddangosfa ar Sioni Winwns i Amgueddfa Pontypridd a Chyngor Tref Roscoff yn Llydaw.

Y fersiwn ar gyfer tref Roscoff yw canolbwynt amgueddfa barhaol i'r Sionis yn y dref.

Yn 1997 trefnodd arddangosfa am Lydaw i goffau dau ganmlwyddiant geni Francois-Alexis Rio a aned yn Llydaw ond â briododd ferch o ardal Y Fenni ac a fu'n gysylltiedig â Carnhuanawc a Gwenyn Gwent a Chymreigyddion y Fenni am ddegawdau.

Gwelwyd hon eto ym Mhontypridd a bu'r ddwy arddangosfa yn Sain Ffagan am gyfnodau. Mae'r ddwy erbyn hyn yn Celtica ym Machynlleth.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG LLANTRISANT

Penodi Dirprwy Bennaeth

Mae Mrs Susan Preece wedi dechrau ar ei swydd newydd fel Pennaeth yr ysgol ac yn ceisio dod i adnabod y plant i gyd - a'r athrawon wrth gwrs! Un o'i dyletswyddau cyntaf oedd mynd ati gyda'r Llywodraethwyr i benodi Dirprwy Bennaeth i'r ysgol ac apwyntiwyd Mr Ryan O'Neil i'r swydd honno ychydig cyn yr hanner tymor. Mae Mr O'Neil yn dysgu ar hyn o bryd yn Ysgol Santes Tudful ond yn byw ger Penybont-ar-Ogwr. Bydd yn ymuno â staff Llantrisant ym mis Medi a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn yn ein plith.

Tîm Rygbi'r Ysgol

Gwnaeth y tîm rygbi'n eithriadol o dda yn ddiweddar pan fuon nhw'n chwarae gêm yn erbyn Ysgol Llwyncrwn. Roedd y bechgyn yn falch iawn mai nhw oedd yn fuddugol.

Ymweliadau

Aeth yr Uned dan 5 am drip i'r Orsaf Dân ym Mhontyclun a dysgu sut mae'r dynion tân yn defnyddio'r offer ac yn diffodd tanau.

Aeth Blynyddoedd 1 a 2 ar wibdaith i Borthcawl er mwyn astudio'r gwahaniaethau rhwng tref Llantrisant a thref Porthcawl ac oherwydd mai 'Glan y Môr' yw eu thema bresennol.

Bu Blwyddyn 6 yn dathlu diwedd y TASau wrth fynd i Ganolfan Hamdden Llanisien yng Nghaerdydd a chael sbri yn y pwll nofio - dwi'n swir eich bod i gyd yn falch fod yr hen brofion yna drosodd nawr ac y gallwch chi gael tipyn bach yn fwy o hwyl yn yr ysgol am yr hanner tymor nesaf!

Cwis Llyfrau

Gwnaeth tîmau'r ysgol yn arbennig o dda eleni - daeth y Tîm dan 10 oed yn bedwerydd a'r Tîm dan 12 oed yn drydydd - da iawn chi.

Buddsoddwyr Mewn Pobl

Braf yw datgeli y dyfarnwyd gwobr Buddsoddwyr Mewn Pobl i'r ysgol. Bu'r staff yn paratoi dros y gaeaf ynghyd â'r cyn Bennaeth, Mrs Marion Evans, a chynhaliwyd y cyfweliadau ar ddechrau'r Gwanwyn. Clywodd yr ysgol yn ddiweddar ei bod wedi bod yn llwyddiannus a derbyniwyd plac fydd yn cael ei gosod yn yr ysgol, mewn seremoni yng Ngwesty'r Celtic Manor. Llongyfarchiadau i bawb fu ynghlwm wrth y fenter.

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos
16 Llys Teilo Sant,
Y Rhath
CAERDYDD
Ffôn: 029 20484816

MENTER IAITH
ar waith yn
Rhondda Cynon Taf
01443 226386
www.menteriaith.net

CAE DWYWAITH Y MAINT I BARTI PONTY AR 29 A 30 MEHEFIN

Ie, wir y mae Parti Ponty bron a bod aronom yn barod er nad ydym ond wedi cyhoeddi'r peth rhyw ychydig yn ôl! Ac yn dilyn trafodaethau rhwng S4C, Radio Cymru, y Fenter a'r parc fe benderfynwyd ehangu'r ardal sy'n cael ei ddefnyddio yn ystod y Parti gan osod llwyfan S4C draw ar bwys y cwrtiau tenis ac ardal chwaraeon yr Urdd gan gynyddu maint y lle sydd ar gael i ymwelwyr cryn dipyn a sicrhau na fydd gwrthdrawiad sŵn rhwng y gwahanol llwyfannau. Mae hyn yn newyddion da ond yn dipyn o her ar yr un pryd achos bod y Parti sut gymaint yn fwy wedyn – y newyddion da ydy bod mwy o ddiddordeb nac erioed gyda phrifysgolion Caerdydd a chwmni Sain yn dod â stondinau symudol sylweddol am y tro cyntaf.

Cafwyd bore bendigedig arall yng Nghanolfan Gelf y Miwni Pontypridd y mis diwethaf gyda phlant cylchoedd meithrin Sardis a Chefn Coed y Cymer (Merthyr Tudful) yn ein diddanu yn ogystal â phlant Ysgol Gynradd Evan James yn rhoi perfformiad gwych arall i ni fel y maen nhw wedi gwneud ers blynyddoedd lawer chwarae teg iddyn nhw – diolch yn fawr iawn i bawb oedd wedi helpu. Cafwyd perfformiad hefyd gan Ar Log a fydd yn perfformio ar brif lwyfan Radio Cymru yn ystod Parti Ponty. Cafwyd geiriau o gefnogaeth gan Delyth Evans, Plaid Lafur ac aelod o Gabinet Cymru, a Pauline Jarman, Plaid Cymru, arweinydd Cyngor Rhondda Cynon Taf. Braf oedd deall bod Delyth yn bwriadu ymweld â'r Parti hefyd er mwyn joio. Owen John Thomas, aelod cynulliad Plaid Cymru, ac Eluned Morgan aelod Senedd Ewrop Plaid Lafur fydd yn agor llwyfan y Fenter ar y diwrnod.

Steffan Webb gyda Ar Log yn lansio Parti Ponty

Bydd y gweithgareddau wedi dechrau llawer iawn cyn hynny wrth gwrs gyda disgyblion ysgolion uwchradd lleol a mudiadau fel y Fenter, yr Urdd, CYD a'r papurau bro yn paratoi atodiad wyth tudalen fydd yn cael ei gyhoeddi yn Y Cymro wythnos cyn yr ŵyl. Bydd y disgyblion ysgol hefyd wedi cael cyfle i wneud eu rhaglen radio eu hunain a fydd yn cael ei darlledu ar y dydd Sadwrn a mwynhau gig ar y prynhawn dydd Gwener mewn cydweithrediad rhwng Yr Urdd, Radio Cymru a'r ysgolion.

Ar nos Wener y gig mawr ydy CATSGAM A DRAGONFALL a fydd yn perfformio yng Nghlwb y Bont mewn cydweithrediad gyda CYD, a Cherddoriaeth Sonig, sy'n golygu bod y noson yn rhad ac am ddim i ddysgwyr yr ardal a'u tiwtoriaid. Mae'r noson yn dechrau am 9pm yng Nghlwb y Bont ar 29/6/01 ac y mae manylion llawn ar gael gan ffonio 01443 226386. Bydd cwmniau drama y Diawled Dawnus a Chwmni Gwen eisioes wedi perfformio yn Neuadd Dowlais yn gynharach yr un noson.

Ar y dydd Sadwrn y mae gweithgareddau yn dechrau ar y maes am 10am yn y bore gyda Band Dur yn croesawu pawb i'r maes a chyfres o gorau ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg yn perfformio ar lwyfan y Fenter Iaith cyn i Trysor a nifer o grwpiau pop ifanc eu dilyn a Sesiwn Fawr Martyn Geraint sydd wedi bod mor boblogaidd dros y blynyddoedd. Bydd Martyn Geraint hefyd yn amlwg ar lwyfanau Radio Cymru a S4C lle bydd cannoedd o blant meithrin yn cystadlu mewn cystadleuaeth gwisg ffansi ac yn mwynhau cwmni Sali Mali a nifer o gymeriadau eraill o'r teledu a radio.

Bydd chwaraeon ar gael trwy gydol y dydd o dan ofal staff yr Urdd a chyfle i filoedd o bobl ymweld â thros 30 o stondinau amrywiol gan gynnwys Cwmniau Sain, Fflach, Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf, Cestyll Neidio a chwarae meddal, Gyrfaoedd a Phrifysgolion Caerdydd a cholegau lleol, y Ffatri Pop, datblygu economaidd, gwirfoddoli a llawer iawn mwy. A gyda'r nos? GIG Fawr yr Urdd a'r Ffatri Bop yn Porth gyda grwp go fawr a all fod yn Anifeiliaid Ffyri Gwych ond dwi'n siwr y clywch chi fwy am hynny nes ymlaen.

Yn dilyn sawl cais am fwy o wybodaeth ysgrifenedig am waith y Fenter byddwn yn defnyddio Parti Ponty fel achlysur i gyhoeddi pamffledyn newydd "Tafodau'r Ddraig" sy'n rhoi braslun o waith y Fenter drwy'r flwyddyn. Yn amlwg 'dych chi'n gwybod am waith y Fenter achos eich bod yn darllen yr erthygl hon bod mis! Mae llawer iawn o wybodaeth cyfoes iawn ar gael at www.menteriaith.co.uk gan gynnwys cyfweliadau teledu a radio yn ogystal â llaweroedd o luniau cyfoes am ein gweithgareddau diolch i Penri Williams.

Cwlwm Busnes

CWLWM BUSNES Y CYMOEDD AR Y WE FYD EANG

Mae gennym bellach ail wefan y Fenter yn canolbwyntio ar fusnes yn **www.cwlwmbusnesycymoedd.co.uk**. Cafwyd noson ddifyr iawn yn y Ffatri Bop yn ddiweddar wrth lansio gwefan Cwlwm Busnes y Cymoedd a chael taith o gwmpas y ffatri ei hunan yng nghwmni Emyr Afan. Mae'r gwefan yn cynnwys rhestr aelodaeth y cwlwm busnes a chysylltiadau trydanol i nifer o safleodd diddorol a difyr sy'n caniatau i gwmniau Cymraeg ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau busnes Cymraeg a chymorth proffesiynol i bobl sydd am weithredu yn economaidd trwy gyfrwng y Gymraeg. Difyr ydy gweld noddwyr y gwaith yma sef Adran Ddatblygu Economaidd Rhondda Cynon Taf, Awdurdod Datblygu Cymru, Elwa, Cwmni Gyrfaoedd, Menter Iaith – wrth gwrs – a Menter a Busnes. Mae tua 130 o bobl ar restr bostio Cwlwm Busnes y Cymoedd ac y mae tua 25 wedi mynychu'r gwahanol cyfarfodydd gan ddysgu a mwynhau'r rhwydwaith busnes Cymraeg newydd yma sy'n rhan bwysig o gais Arian Amcan Un Menter Iaith. Diolch yn fawr iawn i Eirian Davies ein Ymchwilydd Economaidd am ei gwaith caled yn trefnu hyn i gyd ac i Helen Davies am baratoi'r deunydd at y wefan.

NOSON DDATHLU GWIRFODDOLI CYMRAEG

Y mae hi yn flwyddyn gwirfoddoli rhyngwladol eleni, rhag ofn nad oeddech chi'n gwybod yn barod, ac yn wythnos gwirfoddoli rhwng 1af – 9fed Mehefin. Rydym yn fudiad gwirfoddol gyda thros 70 o wirfoddolwyr yn gweithio i ni yn rheolaidd mewn cydweithrediad â'n dau swyddog gwirfoddoli sef Rhodri Wyn Thomas ac Eleri Griffiths. Maen nhw'n trefnu noson i ddathlu gwirfoddoli Cymraeg fel rhan o ddathliadau wythnos gwirfoddoli yng Nghlwb y Bont ar 7fed Mehefin

Helen Davies yn lansio safwe y Cwlwm Busnes yn y Ffatri Bop

gyda siaradwyr a bwffe bach i ddiolch i'n gwirfoddolwyr i gyd. Pwy ydyn nhw? Wel, mae gennym aelodau'r Fforwm Mudiadau Gwirfoddol Cymraeg, 20 o Wirfoddolwyr y Milflwydd, 20 ar y Pwyllgor Gwaith, Gofal Plant a nifer yn gysylltiedig â'n gwaith dysgwyr yn ogystal a'r rhai sy'n codi arian i ni yn rheolaidd iawn bob mis – bach o hwyl a chyfle i ddweud diolch sydd. Manylion gan Rhodri Thomas ar 01685 877183. Ar ddydd Mercher 13eg Mehefin y mae cyfarfod Fforwm Mudiadau Gwirfoddol yn cyfarfod am y tro olaf cyn yr haf rhwng 2-4pm yn Interlink, Pontypridd 01443 485337 gan ystyried dyfodol y fforwm hwnnw.

SWYDDOGION NEWYDD

Mae Dawn Williams wedi cael ei phenodi yn swyddog ieuenctid newydd i gynllun CIC ar y cyd rhwng y Fenter a'r Urdd ac fe fydd hi'n gweithio o swyddfa'r Urdd yn Wind St. Aberdar 01685 882299 ac yn parhau gyda'r gwaith roedd Rhodri Ffransis yn gwneud o'r Cymer. Ar yr un pryd rydym yn chwilio am ail swyddog gofal plant i weithio gyda Trystan Griffiths yn Llantrisant er mwyn sefydlu clybiau Carco newydd yn y Rhondda, Merthyr ac mewn ambell i ysgol Saesneg yn Nhaf-Elai hefyd. Rydym hefyd yn chwilio am staff i weithio yn y clybiau hyn ac yn awyddus iawn i glywed am rhywrhai sy'n fodlon gwneud gwaith difyr a chreadigol gyda phlant yn y Gymraeg rhwng 3.30-6pm bob noson yn ystod tymhorau'r ysgolion. Ar hyn o bryd y cyflog ydy £5.22/ £4.88 yr awr ac y mae codiad cyflog i fod ym mis Medi. Mae manylion llawn ar gael gan Steffan Webb ar 07976 167086 ac yn wasg.

HYFFORDDIANT

Mae holl staff y Fenter wedi bod yn dilyn gwahanol gyrsiau hyfforddiant yn ddiweddar ac rydym yn gweithredu yn ôl safonau PQASSO sef cynllun safoni'r sector gwirfoddol. Mae rhai o staff y cynlluniau newydd dderbyn eu tystysgrifau hyfforddiant chwaraeon ac y mae cwrs hyfforddi "Cymer Ddeg i Chwarae" yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg rhwng 16 – 23 Gorffennaf eleni er mwyn gwneud yn siwr bod gennym staff cymwys i weithio ar ein cynlluniau chwarae.

Rydym yn gobeithio y bydd twf mawr yn yr hyfforddiant sydd ar gael yn y Gymraeg yng Ngholeg Pontypridd yn dilyn llwyddiant cwrs cyfrifiadurol Huw Davies a'i waith gyda'r Coleg.

BREUDDWYDION

Mae pobl yn gofyn trwy'r amser faint o staff a faint o arian sydd angen i sicrhau dyfodol i'r Gymraeg? Hoffwn i weld staff craidd o 20 yn weddol fuan ond eto byddai mwy o gyfle a syniadau ar ol hynny hefyd wrth ystyried gwasanaethau newydd y gallem gynnig. Ar fore Sadwrn 14eg Gorffennaf bydd gennym Gweithdy'r Haf yn edrych ar waith yn y gymuned, wrth gyfathrebu ac wrth weithredu cynlluniau a gynhelir rhwng 10-12 o'r gloch yn y Miwni Pontypridd. Rydym yn gobeithio y bydd pobl yn fodlon dod i drafod ac ystyried cynlluniau'r Fenter am y blynyddoedd nesaf ac rydym yn arbennig o awyddus i weld cynrychiolaeth dda o'r ysgolion yn y gweithdy hwn. Dyma'r tro cyntaf i ni gael gweithdy'r Haf – er gwybodaeth bydd Gweithdy'r Gaeaf ar 1/12/01 os ydych am nodi'r dyddiad.

STEFFAN WEBB.
Prifweithredwr Menter Iaith

FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

Gohebydd Lleol: Martin Huws

MARCIAU LLAWN I YSGOL
Yn ei hadroddiad arolwg mae Mrs Eleri Betts o Estyn yn canmol Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth.

Ar y cyfan, dywedodd fod "safonau da iawn" y disgyblion "yn adlewyrchu ymroddiad yr athrawon, ansawdd uchel eu haddysgu ac ansawdd eithriadol yr arweiniad a roddir gan y pennaeth, a gefnogir yn fedrus gan y dirprwy."

Gan fod yr adroddiad yn gynhwysfawr ni allwn ond cyfeirio at rai pwyntiau.

Cyflawniad
"Mae'r safonau a gyflwynir drwy'r ysgol yn dda iawn mewn 30% o'r gwersi…, yn dda mewn 60% ac yn foddhaol yn y 10% sy'n weddill," meddai.

Yng Nghyfnod Allweddol 1 roedd safonau cyflawniad y plant yn dda iawn yn y pynciau canlynol: Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg Ail Iaith, Dylunio a Thechnoleg, Hanes a Chelf. Yng Nghyfnod Allweddol 2 roedd safonau cyflawniad y plant yn dda iawn yn yr un pynciau.

Ysbrydol
Dywedodd Mrs Betts fod datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda a bod eu datblygiad ysbrydol yn dda "er bod cyfleoedd yn cael eu colli ar brydiau i werthfawrogi rhyfeddod …y byd."

"Mae'r cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn berthnasol," meddai. "Mae'r cwricwlwm ei hun wedi ei gysylltu'n glos â'r gymuned; mae'n annog disgyblion i fod yn falch o'u gwreiddiau tra'n adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, ei diwylliant a'i threftadaeth."

Arbenigedd
Canmolodd y staff. Dywedodd fod yr athrawon yn fodelau rôl da a bod ganddyn nhw "wybodaeth pynciol gadarn". "Mae staffio yn dda iawn," meddai. "Mae'r tîm o athrawon yn meddu ar ystod eang o arbenigedd ac elwa'r disgyblion o ysbryd tîm rhagorol y staff addysgu."

Serch hynny, dywedodd nad oedd yr adeiladau'n foddhaol. "Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau mewn cabanau dros dro sydd wedi bod ar y safle am gryn amser," meddai. "Mae hyn yn milwrio yn erbyn galluogi'r ysgol i gyflawni'r safonau uchaf posibl ym mhob pwnc…"

Nododd Mrs Betts fod 189 disgybl ar y gofrestr, 136 yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ôl dogfennau'r ysgol, 12% sy'n dod o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng Chwefror 12 a 15.

250,000 YN GWRANDO AR RADIO REAL
Mae gorsaf radio, sy â'i phencadlys yn Nhreforgan, yn honni fod 250,000 yn gwrando arni bob wythnos.

Dywedodd llefarydd ar ran Radio Real fod 11.5% o'r farchnad yn gwrando arni, o Gasgwent yn y dwyrain i Gaerfyrddin yn y gorllewin.

"Mae hyn y tu hwnt i'n disgwyliadau," meddai John Myers, prif weithredwr GMG Radio Holdings sy'n berchen ar Radio Real. Honnodd llefarydd ar ran Radio Real fod rhai o wrandawyr Radio Wales wedi troi at Radio Real.

"Dyw hyn ddim yn wir," meddai llefarydd ar ran Radio Wales. "Dyw canran ein gwrandawyr ni ddim wedi gostwng ers i Radio Real gychwyn.

"Mae'n glir bod eu cynulleidfa newydd yn arfer gwrando ar orsafoedd radio lleol eraill." Mae 8.7% o'r farchnad yn gwrando ar Radio Wales.

JOE'N CYRRAEDD Y BRIG
Llongyfarchiadau i Joe Sultana, Capten Tîm Rygbi Ffynnon Taf, sy wedi ei ddewis yn aelod o garfan Ynys Melita.

Y bwriad yw ymuno â'i gydchwaraewyr yng ngwersyll ymarfer Ynys Melita cyn chwarae'r gêm gynta yn erbyn Cosofo yng Nghystadleuaeth Cwpan y Byd. Pob lwc iddo.

DIGWYDDIADAU

CAPEL BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth, 10.30am. Mehefin 3: Y Gweinidog (Cymun); Mehefin 10: Y Gweinidog; Mehefin 17: Y Gweinidog; Mehefin 24: Y Parchedig Gwyn Erfyl.

CYLCH TI A FI, Ffynnon Taf: brynhawn Mercher yn ystod y tymor, 1.15-2.45pm, Neuadd Pentre' Ffynnon Taf. Mwy o fanylion: Jo Jones, 029 20 810600.

CYLCH MEITHRIN Gwaelod-y-Garth, 9-3.15, Festri Capel Bethlehem, Gwaelod-y-Garth.

CYMDEITHAS ARDDWROL Ffynnon Taf a'r Cylch: ddydd Mawrth cynta'r mis, Clwb Cyn-Aelodau'r Lluoedd Arfog, Glan-y-Llyn. Manylion oddi wrth Mrs Toghill, 029 20 810241.

YSGOL GWAELOD-Y-GARTH: Mehefin 5, Cyfarfod Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, 7.30pm; Mehefin 16, Ffair Haf, 11-1pm. Y pris mynediad fydd £1 yr un i oedolion a bydd stondinau amrywiol, gan gynnwys peintio wynebau, olwyn ffawd, barbeciw, bwrdd cardiau a'r uchafbwynt efallai, gwlychu'r athro.

Dalier Sylw: wrth inni fynd i'r wasg, daeth gwybodaeth y byddai'r Helfa Drysor yn cael ei chynnal ar Fehefin 14 neu 21. Cysylltwch â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, os gwelwch yn dda.

Urddaholics yn yr Alban 2001

> FFYNNON TAF NANTGARW A GWAELOD Y GARTH

YN Y LLYS AM DDWYN LAGER
Roedd Martin Symons, 21 oed, o South View, Tŷ Rhiw, Ffynnon Taf, gerbron Llys Ynadon Pontypridd ar ôl dwyn pedwar can o lager gwerth £3 o'r Convenience Store, Spar gynt, yn Ffynnon Taf.

Cafodd ei ryddhau'n amodol am flwyddyn.

MARW CLIFF TARR
Yn dawel ar Fai 23 yng Nghartre Nyrsio Dyffryn Ffrwd, Nantgarw, bu farw Cliff Tarr, gŵr y ddiweddar Gladys, tad Jeanne, tad-yng-nghyfraith Frank, tad-cu Catherine a Michael, a hen dad-cu Andrew a Daniel. Roedd y traddodiant ar Fehefin 1 yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd. Cydymdeimlwn â'r teulu.

BUGAIL NEWYDD
Cyhoeddwyd taw'r Parchedig John Payne yw ficer newydd Eglwys Mihangel Sant, Tongwynlais, ac Eglwys y Santes Fair a Sant Ioan, Ffynnon Taf.

Dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd ac rydym yn deall y bydd yn cychwyn o fewn mis.

EI WAHARDD AM DAIR BLYNEDD
Cafodd Alan Brown, 41 oed, o Dylagwyn, Nantgarw, ei wahardd rhag gyrru am dair blynedd a dirwy o £300.

Roedd yn ymddangos gerbron Llys Ynadon Pontypridd ar ôl gyrru â gormod o alcohol yn ei waed, 57 microgram mewn 100 mililitrau o ana'l. Yr uchafswm cyfreithiol yw 35 miligram.

MARW MARGARET DICKS
Yn dawel yn yr ysbyty ar Fai 5 bu farw Margaret Dicks, Tŷ Capel, Garth Street, Ffynnon Taf, gwraig y diweddar Morgan Walter Dicks, mam Graham, Peter a'r ddiweddar Sheila, a mam-gu a hen fam-gu gariadus. Roedd y gwasanaeth a'r traddodiant yn Amlosgfa Thornhill, Caerdydd, ar Fai 14. Cydymdeimlwn â'r teulu.

SIOP BARA Y PENTREF
Heol St Illtyd
Pentre'r Eglwys

Bara a chacennau wedi eu pobi yn y siop mewn ffwrn draddodiadol.
Mrs Janet Evans
01443 202013
Trefnir Arlwyo

Stirling yn yr Alban oedd lleoliad ein arhosiad ar gyfer gêm Cymru a'r Alban eleni. Aeth llond bws o Urddaholics i fyny i weld y gêm fawr yn Murrayfield ac i gefnogi ein bechgyn ni. Ar ôl y daith hir ar ddydd Gwener cafwyd noson allan dawel (weddol dawel!) yn Stirling ar y nos Wener. Ar fore'r diwrnod mawr, pa ffordd well i baratoi am y frwydr nag ymweld â chofgolofn William Wallace cyn mentro'r siwrnau fer i Gaeredin. Ef mae'n siwr yw prif symbol y mudiad cenedlaethol yn yr Alban.

Wrth deithio mewn i Gaeredin ar fore'r gêm roedd môr o goch ym mhob man a chriw yr Urddaholics wedi gwneud cystal ymdrech ag unrhywun. Er y siom o beidio ennill y gêm cafwyd noson wych yng Nghaeredin a'r farn gyffredinol oedd……
"Ma' Murrayfield yn llawer gwell na Stadiwm y Mileniwm".

I gwblhau ein diwrnod roedd rhaid gadael ein marc.
"Beth am ganu Franz o Wlad Awstria?" oedd y floedd. Dyna a wnaethpwyd, a hynny o flaen y gwesty mwyaf braf yng Nghaeredin!

Yn sicr, cafwyd amser da gan bawb ac mae'r paratoadau yn eu lle am Iwerddon 2002.

YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Ciaran a'i Cello eto

Mae Ciaran Jenkins (17) newydd ennill 'Cerddor y Flwyddyn' yng nghystadleuaeth y Clwb Rotari. Dwedodd Ciaran "Ro'n i'n reit nerfus i fod yn onest, ond unwaith o'n i ar y llwyfan, fe ddiflannodd y nerfau ac fe fwynheais bob eiliad."

Cyrhaeddodd Ciaran, sy'n dod o Ferthyr, rownd derfynol cystadleuaeth 'Cerddor Ifanc Texaco' ddwy flynedd yn ôl, felly rydym yn hapus iawn ei fod wedi cipio'r wobr uchaf y tro hwn.

Nid yw Ciaran yn hollol sicr ynglyn â bod yn berfformiwr proffesiynol ond fe fydd yn parhau i astudio cerddoriaeth yn y brifysgol wedi iddo orffen ei addysg yn Rhydfelen.

Ei hoff gyfansoddwyr yw Shostakovich a Prokofiev. Mae chwaer Ciaran, Bethan (19), hefyd yn dalentog ond y fiola yw ei hofferyn hi ac y mae'n astudio yn y Brifysgol yn Aberystwyth ar hyn o bryd.

Llongyfarchiadau mawr i ti Ciaran a phob hwyl yn y gystadleuaeth nesaf.

Prif swyddogion

Am y tro cyntaf yn hanes Ysgol Gyfun Rhydfelen, etholwyd efeilliaid i fod yn brif swyddogion. Mae Osian a Lowri Jones, sydd yn 17, yn byw yn Nhon-teg, ger Pontypridd, yn astudio lefelau A yn y chweched dosbarth.

Mae Lowri yn astudio Hanes, Saesneg a Drama ac yn gobeithio cael addysg uwch, tra mae Osian yn astudio Cerddoriaeth, Drama, Mathemateg a Ffiseg. Mae'n gobeithio parhau i astudio Cerddoriaeth yn y brifysgol.

Cynhaliwyd yr etholiadau i'r staff a'r chweched dosbarth cyn yr hanner tymor.

Mae Rhydfelen wedi bod yn sefyll ers bron i ddeugain mlynedd erbyn hyn. Brwydrodd pobl Morgannwg yn gryf er mwyn sicrhau ysgol uwchradd Gymraeg, ac felly, fe agorwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yn Ne Cymru ym 1962.

"Mae gan y Prif Swyddogion a'r dirprwyon gyfraniad pwysig i'w wneud trwy gynrychioli'r hyn sy'n dda yn Ysgol Rhydfelen," meddai'r Pennaeth, Mr. Bryan James, "Rwy'n falch iawn o'r tîm newydd ac yn edrych ymlaen, gyda gweddill y staff, at gydweithio gyda nhw."

Ganwyd Lowri ac Osian yn Wrecsam, ac maent wedi byw yn Nyffryn Ardudwy, Hen Golwyn ac Aberteifi cyn symud i Don-teg ym 1990.

Etholwyd dau ddirprwy, sef Betsan Pearce a Huw Caffery. Mae'r pedwar yn gobeithio canolbwyntio ar hybu Cymreictod yr ysgol. Pob lwc iddynt yn eu swyddi newydd.

Betsan Pearce
Osian Llwyd Jones

Lowri a Osian Jones

Mark Crowley

Mark 100%

Mae disgybl Ysgol Gyfun Rhydfelen, Pontypridd, wedi llwyddo cyflawni camp o 7 blwyddyn presenoldeb 100%.

Mae Mark Crowley, 18, o Bentre'r Eglwys, Pontypridd, heb golli diwrnod o ysgol ers 7 mlwyddyn. Mae hyn yn record sydd wedi cael ei gyflawni ond 3 gwaith cynt yn hanes yr ysgol.

Dywedodd Mark: "Gosodais y targed yma i'm hunan ar ôl gweld disgybl chweched dosbarth yn cyflawni'r camp yma pan oeddwn yn ddisgybl ym mlwyddyn saith yn 1994."

"Roeddwn i wedi colli cymaint o ysgol pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n benderfynol o sicrhau na fyddwn i'n colli cymaint o amser pan oeddwn yn Rhydfelen."

"Sioc mawr oedd cyrraedd presenoldeb llawn am 5 mlynedd, a phenderfynais yr oedd parhau am ddwy flynedd arall yn rywbeth oedd yn werth i'w wneud"

"Rydw i'n gwerthfawrogi fod yr ysgol wedi rhoi cydnabyddiaeth i'r llwyddiant yma, ac rydw i'n falch fy mod i wedi llwyddo cyrraedd y targed yr oeddwn i wedi gosod i'm hunan yn fachgen 11 mlwydd oed ym mlwyddyn saith"

Mae Mark yn awr yn mynd ymlaen i wneud ei arholiadau safon uwch mewn Hanes, Gwleidyddiaeth,

GWOBRAU HAMPSON-JONES – YSGOL RHYDFELEN

Dair blynedd yn ôl fe ddaeth Huw Hampson-Jones, cyn-ddisgybl, yn ôl i'r ysgol ar ôl derbyn gwahoddiad gan y Pennaeth i fod yn ŵr gwadd ar gyfer Seremoni Gwobrwyo'r ysgol. Wedi hynny, fe benderfynodd sefydlu cronfa arbennig er mwyn gwobrwyo disgyblion yr ysgol i'w cynorthwyo i barhau â'u haddysg.

Mae'r wobr ei hun yn werth £1,000 a rhoddir y wobr gyntaf yn y Seremoni Gwobrwyo yn Hydref 2002. Ar ôl hynny, y bwriad yw cynyddu nifer y gwobrau yn raddol dros y blynyddoedd nesaf. Disgyblion sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 13 fydd yn gymwys i ymgeisio.

"**Hybu addysg disgyblion yr Ysgol trwy eu gwobrwyo am gyflawniad academaidd**" yw nod y gwobrau hyn. Golyga hynny safon uchel o lwyddiant yn yr arholiadau allanol, wrth gwrs, ond hefyd rhoddir ystyriaeth i ymdrech a chynnydd.

Meddai'r Pennaeth, Mr. Bryan James: "Yn ogystal â hynny, mae Mr. Hampson-Jones yn awyddus i'r wobr fod yn gydnabyddiaeth o gyfraniad tuag at ethos Gymraeg yr ysgol ac agwedd eangfrydig tuag at berthynas Cymru â'r byd cyfoes. Y gobaith yw y bydd y gwobrau hyn yn symbyliad pellach i'r disgyblion anelu'n uchel a byw bywyd Rhydfelen yn llawn."

Wrth lansio'r Gwobrau yn yr ysgol ddydd Gwener, 18 Mai, pwysleisiodd Mr. Hampson-Jones ddau beth yn arbennig: mai cyfrifoldeb yr unigolyn oedd sicrhau ei lwyddiant ei hun; a'i bod yn bwysig arddel ein gwreiddiau a'n Cymreictod ble bynnag y byddwn ni, ynghyd â goddefgarwch tuag at eraill. Dyna oedd ei brofiad, meddai, o weithio gyda phobl ym mhob rhan o'r byd.

> Mark 100%

Cymdeithaseg, Saesneg a'r Gyfraith, gyda'r gobaith o fynd ymlaen i astudio Hanes Modern a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd.

Gorffenodd Mark gan ddweud: "Mae'r ysgol yn rhoi llawer iawn o bwyslais ar bresenoldeb, gan gynnal cystadlaethau i blant yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Rydw i'n gobeithio bydd y gamp yma yn medru rhoi anogaeth i ddisgyblion sydd â phresenoldeb llawn i fynd ymlaen i gyflawni'r un record a mi."

Diolch yn fawr iawn i Angharad Davies, chwech dau llys Gruffydd am gymryd y llun o Mark. Roedd Angharad, er yr oedd llawer o waith ysgol ganddi, wedi ffendio'r amser i brosesu y llun yma ar ei chamera digidol a'i hanfon i Tafod Elái mewn da bryd. Diolch Angharad!

Ysgol Castellau

Newidiadau
Penodwyd Dafydd Iolo Davies yn Ddirprwy newydd i'r ysgol. Edrychwn ymlaen at ei groesawu ym mis Medi. Daeth dwy athrawes i ymuno â ni dros dymor yr haf, sef Ffion Griffiths a Leanne Brinn. Croeso iddyn nhw.

Disgybl Dawnus
Cafodd Jeffrey Sutton Blwyddyn 6 flwyddyn lwyddiannus fel chwaraewr rygbi. Bu'n chwarae yn Stadiwm y Mileniwm fel aelod o garfan Ysgolion Pontypridd
ac yna cafodd ei ddewis yn aelod o garfan Dwyrain Cymru. Llongyfarchiadau a phob lwc iddo.

Côr yr ysgol
Mae côr yr ysgol yn edrych ymlaen at ymweld â Chanolfan y BBC yn Llandaf i recordio caneuon ar gyfer Rhaglen radio Sioe Gerdd. Mae'n debyg y bydd cyfle i ymweld â set Pobol y Cwm yn ystod y dydd.

Cymanfa Ganu
Bydd disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn cymryd ran mewn Cymanfa Ganu yng Nghapel y Tabernacl Efail Isaf yn ystod mis Mehefin. Daw'r emynau o lyfr newydd 'Caneuon Ffydd'.

Ymweliadau
Bydd yr Adran Fabanod yn yweld â Phorthcawl a'r Adran Iau â Bae Caerdydd yn ystod mis Gorffennaf

Profiad Gwaith
Braf oedd croesawu Joanne Daniels a Rhys Owen, dau gyn-ddisgybl yn ôl i'r ysgol ar brofiad gwaith

Clwb Carco Castellau
Mae'r Clwb yn mynd o nerth i nerth dan arweiniad Carol Minton. Nos Wener yw'r noson mwyaf poblogaidd gan ei bod hi'n 'Noson Macdonald's'. Erbyn hyn mae'n rhaid cofrestru ymlaen llaw gan fod cymaint eisiau ymuno yn yr hwyl!

Cylch Meithrin A Cylch Ti a Fi
Mae'r Cylch Meithrin yn cwrdd bob bore yn Neuadd y Scowtiaid, Beddau a'r Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Iau. Diolch i Jackie Stamenkovic a Carol Bickford am eu gwaith diflino gyda'r plant bach. Am fanylion pellach ffoniwch 01443 207750.

HOFFECH CHI DDYSGU CHWARAE'R PIANO?

gwersi piano a theori ar gyfer pob safon
•
gwasanaeth cyfeilio proffesiynol

hyfforddiant trwy'r Gymraeg gan athrawes brofiadol (tystebau ar gael)

BRANWEN B EVANS
01443 686120
07974 119541

WYTHNOS GWIRFODDOLI 2001

Unwaith eto mae cyfnod y Sulgwyn wedi cyrraedd ac yn ogystal â bod yr wythnos bwysicaf yng nghalendr yr Urdd mae hi hefyd yn wythnos bwysicaf y flwyddyn i wirfoddolwyr ar draws Cymru. Nid yn unig mae hi'n wythnos gwirfoddoli ond mae hi hefyd yn flwyddyn rhyngwladol gwirfoddoli sydd yn golygu y bydd mwy o ddathlu, codi statws gwirfoddoli yn fyd eang a thrafodaeth allweddol yng nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar ddiwedd y flwyddyn!
Trefnwyd nifer o achlysuron i ddweud diolch wrth wirfoddolwyr gan gynnwys bwffe Cymraeg yng Nghlwb y Bont i unrhyw rai sydd yn gwirfoddoli yn Gymraeg (trefnwyd gan Menter Iaith) a chinio dathlu yng ngwesty treftadaeth y Rhondda wedi ei drefnu gan Interlink.
Os hoffech chi gymryd rhan mewn gweithgaredd gwirfoddol mae yna angen dirfawr am Gymry Cymraeg. Ceir dewis helaeth o gyfleoedd a waeth beth yw eich sgiliau, gallech fod yn cyflawni gwaith gwerth chweil yn eich cymuned. Dyma rai o'r mudiadau sydd yn ceisio recriwtio siaradwyr Cymraeg yn Nhaf Elái.

AGE CONCERN MORGANNWG
" Dwi mor falch i chi alw – Dwi ddim wedi siarad â neb ers i chi fod yma wythnos ddiwethaf"

Dyma sut y cyfarchwyd un o wirfoddolwyr Age Concern yn ddiweddar. Mae Age Concern yn helpu pobl mewn amryw o ffyrdd gwahanol yn Nhaf Elái wrth gynnig cefnogaeth emosiynol, cyngor a gwybodaeth i'r rheiny sydd ei angen. Mae rhai o'n gwirfoddolwyr yn mwynhau cael dod yn gyfaill i rywun, mae eraill yn helpu gyda ffurflenni budd-daliadau ac mae gennym wirfoddolwyr sydd yn rhoi hyfforddiant i eraill ar gyfrifiaduron neu gwneud gwaith swyddfa cyffredinol. Mae ein gwirfoddolwyr yn cael boddhad allan o'u gwaith ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Rydym newydd fabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg newydd ac yn frwd i gael help gwirfoddolwyr Cymraeg eu hiaith i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn newis Iaith ein cleientiaid Cymraeg.

VALREC
Valrec yw cyngor cydraddoldeb hiliol yr ardal ac mae eu swyddfeydd ym Mhontypridd. Maent newydd lansio cynllun newydd i alluogi gwirfoddolwyr i helpu gyda'u gwaith. Mae VALREC yn hybu cyfartaledd hiliol yn y Cymoedd ac yn herio hiliaeth yn ein cymunedau. Os yw hyn o ddiddordeb i chi a rydych yn credu dylai pawb gael hawliau cyfartal dewch i ymuno â ni.

Rydym am adeiladu tîm o wirfoddolwyr i'n helpu i sefydlu grŵpiau hunan-gymorth, un i fenywod du a'r rheiny o leiafrifoedd ethnig, ag un arall i bobl ifanc ddu a rhai o leiafrifoedd ethnig. Bydd cyfleodd yn y dyfodol i gael eich hyfforddi fel hyfforddwyr ymwybyddiaeth hil a bydd cael mewnbwn siaradwyr Cymraeg o fudd mawr i'r mudiad er mwyn eich galluogi i weithio gyda'r gymuned Gymraeg ac yn ein ysgolion Cymraeg. Hefyd rydym yn frwd i ddarparu peth o'n deunyddiau hybu yn Gymraeg a rydym yn ffyddiog y bydd ein gwirfoddolwyr yn mwynhau bod yn rhan o waith ein mudiad.

ADREF

Sefydlwyd Adref yn 1990 i helpu pobl sengl digartref i ddod o hyd i ag ymgartrefu mewn llety. Maent yn rheoli nifer o brosiectau ac maent yn gweithio dros y sir i gyd. Un o'u prosiectau yw gwarchodfa nos sydd ar agor yng Eglwys Unedig Pontypridd. Ers i'r warchodfa agor yn 2000 mae 178 o bobl wedi ei ddefnyddio.

Medd Mags Coghlen, Swyddog ailgartrefi Adref "Ein prif nod wrth redeg y warchodfa yw i ddod o hyd i lety parhaol i'r bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth"

Bydd gwirfoddolwyr Adref yn mynychu cwrs wedi ei achredu cyn eu bod yn gallu gwirfoddoli gyda phobl digartref a rheiny sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref. Mae gwirfoddolwyr yn helpu defnyddwyr y gwasanaeth gyda hyfforddiant, cwblhau ffurflenni, addurno a bod yn eiriolwyr.

Os hoffech mwy o wybodaeth cysylltwch â Eleri neu Eirwen yn Interlink – 01443 485337
(Rheolir y prosiect hwn ar y cyd gan Menter Iaith ag Interlink)

CYNLLUN CHWARAE CYMRAEG I GAERDYDD

Mae Menter Iaith Caerdydd wedi derbyn arian gan yr elusen Plant Mewn Angen er mwyn cynnal cynllun chwarae Cymraeg yng Nghaerdydd am 3 wythnos yn ystod gwyliau haf yr ysgolion. Dyna'r unig gynllun Cymraeg yng Nghaerdydd.
Dywed GARETH KIFF (Swyddog Datblygu'r Fenter) "Hoffem ddiolch i Blant Mewn Angen am ei haelioni ac am sicrhau bod cynllun chwarae cyfrwng Cymraeg ar gael i ddinasyddion Caerdydd eleni. Mae hefyd yn ddatblygiad cyffrous i'r Fenter wrth i ni ehangu i feysydd newydd' .
Menter Iaith Caerdydd
Ty'r Cymry 11 Heol Gordon
Y Rhath Caerdydd CF24 3AJ
Ffôn (029) 2045 0529
Ffacs: (029) 2049 5706.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Mae hwyl a sbri ar gael yn y Cylch Ti a Fi felly dewch i chwarae yn eich cylch lleol.

Yn Nhŷ'r Eglwys,
Graigwen ar ddydd lau o 1.30 – 3.00

Yn Neuadd y Sgowtiaid,
Beddau pob dydd lau o 1.30 – 3.00.

Manylion pellach: Swyddog Datblygu (Cynon/Taf)
Sharon Warren 01656 652066

YSGOL GYFUN LLANHARI

Dawnsio Disgo
Mae un o ferched o flwyddyn 7, Nardine Francis wedi bod yn cystadlu dros Gymru mewn cystadlaethau Dawnsio Disgo ar hyd a lled y wlad. Mae hi wedi cystadlu yn ddiweddar yn Efrog, Birmingham a Manceinion ac wedi ennill nifer o weithiau. Mae Nardine weithiau yn cystadlu yn unigol ond yn fwy aml gyda phartner neu fel rhan o grŵp. Dymuna'r ysgol bob lwc iddi yn ei gyrfa dawnsio disgo yn y dyfodol.

Chwarae Pêl-Droed
Mae Sean Cronin ym mlwyddyn 10 wedi cynrychioli Cymru mewn gêm bêl-droed yn erbyn yr Alban. Hwn oedd ei gêm gyntaf ef i Gymru ond mae e yn sgwad tîm iau Cymru.

Chwarae Rygbi
Mae Hywel Ford o flwyddyn 13 wedi chwarae dros Gymru nifer o weithiau yn ystod y tymor.

Mae Simon Cole o flwyddyn 12 yn y tîm datblygiadol Cymreig.

Cystadlu ar y Teledu
Mae dau ddisgybl o'r ysgol wedi bod yn cystadlu ar raglen deledu "Ar y bocs" yn ddiweddar. Fe fu Amy Coombes o flwyddyn 13 yn cystadlu ar nos Sul 13eg o Fai ac Aneurin Barnard o flwyddyn 9 ar nos Lun 14eg. Mae'r ddau ohonynt yn gwneud llawer o ganu ysgafn a dymuna'r ysgol bob lwc iddynt os fyddant yn dilyn gyrfa yn y maes adloniant. Fe enillodd Amy ei chystadleuaeth hi ac fe fydd hi yn cystadlu eto ar nos Iau 17eg o Fai yn y rownd derfynol.

Judo
Mae Natalie Thomas ym mlwyddyn 10 wedi bod yn cynrychioli Cymru yn y tîm judo. Mae hi wedi bod yn gwneud llawer o judo ers blynyddoedd ac fe fydd hi yn cystadlu eto yn fuan yn y dyfodol.

Athletau
Yn dilyn Athletau'r Sir ym mis Mai bydd y canlynol yn cynrychioli'r Sir. Blwyddyn 10 - Lyndsey Maund yn y naid hir, naid driphlyg a 1500m, Lisa Bwye yn 80m dros y clwydi. Blwyddyn 12 - Joanne Harman yn y 200m a Rhys Williams yn y 400m a 400m dros y clwydi.

Daeth Kayleigh Thomas Bl 8 yn ail yn y Sir am daflu'r waywffon - 19m 25cm.

Pêl Rwyd
Mae'r canlynol wedi mynd ymlaen o dreialon Taf Elái i dreialon y Sir: Siân Steven, Lowri Dawe, Lisa Bwye, Amie Westwood, Caryl Jones, Kerry Ann O'Connell.

Nardine Francis

Sean Cronin



Aneurin Barnard

IECHYD... A HAPUSRWYDD?

Tensiynau, carwriaethau, uchelgais, gwrthdaro...heb sôn am ddigonedd o achosion i gadw swyddfa Iechyd yr Amgylchedd ym Mryngarw yn brysur! Ydy, mae'r gyfres ddrama boblogaidd, Iechyd Da, yn dychwelyd i S4C nos Sul.

Mae 'na dipyn o newidiadau wedi digwydd ers i ni ymuno ddiwethaf a'r criw. Mae Liz (CATRIN POWELL) a Huw (RHYS RICHARDS) nid yn unig yn cydweithio, ond maen nhw bellach yn cyd-fyw, ac mae'n gallu bod yn anodd cadw'r ddysgl yn wastad.

Yr hyn sy'n gwneud bywyd ychydig yn fwy cymhleth i'r ddau yw mai Huw bellach yw bos y swyddfa - ac felly mae e'n gorfod trin Liz fel unrhyw aelod arall o'i staff, sydd weithiau'n creu tyndra rhwng y ddau.

Mae'r sefyllfa lawn mor anodd i Liz hefyd. Wedi'r cyfan, mae hi'n ferch uchelgeisiol a phenderfynol iawn, ac mae cael Huw yn ei thrin fel un o'i weision cyflog yn mynd o dan ei chroen braidd. Does ryfedd felly ei bod hi'n teimlo braidd yn rhwystredig gyda'r sefyllfa, yn enwedig pan fo'r dirprwy newydd yn cyrraedd.

Carys Roberts yw'r Dirprwy newydd sy'n mentro i ffau'r llewod, ac mae'n cael ei chwarae yn y gyfres gan BETH ROBERT. Wrth i ni ymuno â'r criw yn y rhaglen gyntaf nos Sul, mae Carys ar ei diwrnod cyntaf yn y swyddfa - ac mae'r croeso'n oeraidd a dweud y lleiaf!

IECHYD DA ar S4C Bob Nos Sul

Kayleigh Thomas

GWNEUD HANES YN HWYL

Hen bwnc digon ychafi a diflas y gall hanes fod ar y gorau - ond nid felly i wylwyr Planed Plant am yr wythnosau nesaf wrth i'r gyfres animeiddio boblogaidd Hanesion Hyll ddychwelyd i S4C.

Bob nos Wener am 5.00 o'r gloch mae cyfle unwaith eto i deithio'n ôl mewn amser yng nghwmni'r prif gymeriadau cartŵn Mo a Stitch a darganfod sut yr oedd pobl yn byw mewn gwahanol gyfnodau mewn hanes.

Yn seiliedig ar lyfrau plant poblogaidd Terry Deary, Horrible Histories y mae'r gyfres animeiddio hon yn rhan o brosiect cydwladol rhwng cwmni cyhoeddi Scholastic o Efrog Newydd, cwmni animeiddio Mike Young Productions a chwmni teledu Telegael o Iwerddon. Prynwyd yr hawliau i'r cyfieithiad Cymraeg gan S4C a chynhyrchwyd y gyfres 13 pennod hanner awr gan gwmni teledu Salem o Gaerdydd.

Hanesion Hyll oedd y prosiect cyntaf i gwmni Salem ac yn ôl y cynhyrchydd Ynyr Williams roedd yn fenter gyffrous iawn. Gwneud hanes yn hwyl yw'r nod a thrwy hynny dal dychymyg ac addysgu.

Mae stamp hiwmor y canwr, cyfansoddwr a'r cyfieithydd o Gaernarfon, GERAINT LOVGREEN a fu'n gyfrifol am drosi'r straeon, yn amlwg ar y sgriptiau. Llwyddodd hefyd i roi blas Cymreig ar yr hiwmor a fyddai at ddant gwylwyr ifanc S4C. "Roedd lot o'r hiwmor gwreiddiol o dras Americanaidd felly ro'n i'n trio ei drosi i hiwmor a fyddai'n apelio at blant Cymru. Dwi wedi cyfieithu cartwnau o'r blaen ond y rhain oedd y mwyaf o hwyl i'w gwneud o bell ffordd. Fe fwynheais weithio ar y sgriptiau'n fawr ac wedi eu gweld, dwi'n teimlo eu bod yn gweithio'n dda iawn."

Daeth cast profiadol o actorion ynghyd i leisio'r gyfres Gymraeg gan gynnwys ARWEL GRUFFUDD a NIA ELIN fel Stitch a Mo, EMYR WYN, GARETH POTTER, RHYS



PARRY JONES, SIAN NAOMI ac ALUN AP BRINLEY. Acen Rhos gyfarwydd y cyflwynydd, actor a'r cynhyrchydd STIFYN PARRI.

Dangoswyd y chwe phennod gyntaf o'r gyfres ym mis lonawr eleni pan gafwyd agoriad llygad gwerthfawr i sut yr oedd pethau yn ystod teyrnasiad y Tuduriaid, y Rhufeiniad rhyfeddol y Llychlynwyr lloerig a'r Groegiaid gwirion ymysg eraill. Ond tybed pa ryfeddodau a chymeriadau lliwgar y down ar eu traws wrth wylio'r saith pennod sy'n weddill o'r gyfres ac ar ba gyfeiliorn y bydd y ddau direidus yma'n ein harwain y tro hwn?

PLANED PLANT: MO A STITCH
HANESION HYLL
Prynhawn Gwener, S4C

www.s4c.co.uk

Cydweithio. Cyd-fyw... ond am ba hyd?

IECHYD DA

9.00PM
BOB NOS SUL
YN CYCHWYN 10 MEHEFIN
TRANSL888/889

AILDDARLLEDIAD BOB NOS FAWRTH

S4C

CYFRES NEWYDD